YR YMOFYNYDD.

Rhif. 3.] MAWRTH, 1859. [Ail Gyfres.

"PROFWCH BOB PETH; DELIWCH YR HYN SYDD DDA."—PAUL.

Y MADOGWYS.

II.

Holiadau am danynt.

Rhoddais yn y rhifyn diweddaf grynodeb o dystiolaethau ynghylch pobl a elwid "Indiaid Cymreig," ac a dybid eu bod yn ddisgynyddion Madog ab Owen Gwynedd a'r canlynwyr a roddir iddo yn y traddodiad Cymreig. Gwelwyd fod y tystiolaethau am danynt yn helaeth, yn lluosog, ac yn amrywiol; ac yn cynnwys traethiadau eu bod yn siarad Cymraeg gyda mwy o burdeb na'r Cymry eu hunain; wedi etifeddu pethau nad oedd gan eu cyndeidiau canoloesol yng Nghymru, sef Biblau Cymreig; ac wedi bod yn fwy gofalus na'r Cymry eu hunain, trwy gadw cof am fordaith Madog, yr hyn sydd heb un son am dani yn y Croniclau Cymreig. Hefyd fod yr Indiaid hyn yn wynion, eu bod yn preswylio yn agos pob rhan o'r cyfandir Americanaidd; ac eu bod oll yn siarad Cymraeg, er eu bod yn wyth neu ddeg o lwythau gwahanol.

Yn awr, yr oedd un gofyniad yn tarddu yn naturiol oddiar yr adroddiadau hyn: os oedd y cyfryw mewn bodoliaeth, ac os nad anwiredd gwirfoddol neu hunan-dwyllol oedd y tystiolaethau hyn, dylesid cael gwybodaeth mwy awdurdodol am danynt, a dyfod o hyd iddynt. Oedd amryw o'r tystion yn addef na wyddent hwy Gymraeg eu hunain, ac ereill yn dweud anwireddau amlwg; ac felly teimlid hyd yn nod gan Gymry crediniol y buasai yn fwy boddhaol pe buasai rhyw Gymro o gymmeriad uchel ac onest yn myned i'w plith, ac wedi hynny yn cadarnhau y tystion ereill. Cynnygiai y Parch. Morgan Jones arwain holwyr at y Doegiaid; ond nid oes un hanes fod neb wedi derbyn y cynnygiad—nid hyd yn nod Thomas Lloyd a ddanfonodd yr hanes gyntaf i Gymru. Ond gwnaeth yr hanes argraph ddyfn ar feddyliau y Cymry, ac yn neillduol wedi cyhoeddiad yr hanes yn Nrych y Prif Oesoedd; cynnyrchodd deimladau moesol a chrefyddol yn gystal a chenedlaethol; gwelwyd Rhagluniaeth ryfeddol iawn yn nhreigliad y welygordd hon o Gymry mewn oes dywell, ac yn eu darganfyddiad wedi hynny fel cenedl luosog yng

nghanol gwlad anghysbell; a theimlwyd fod dyledswydd ar y Cymry eu dwyn i adnabyddiaeth o wirioneddau y grefydd Gristnogol:—

> Taened goleu, tywyniad gwiwlon,
> I'r gorllewinol gyrau llawnion;
> Gwawr o ddiwygiad gywir ddigon,
> Draw i Fadogwys—drefedigion.
> *Dafydd Ddu Eryri.*

Dan ddylanwad y teimlad cenhadol hwn, yn y flwyddyn 1792, cymmerodd dyn ieuanc o'r enw John Evans, o'r Waunfawr, yn Arfon, at y gorchwyl pwysig o fyned at y Madogwys a phregethu yr efengyl iddynt. "Yr ydwyf, (medd efe, mewn llythyr at ei frawd yn Arfon, dyddiedig Baltimore, dydd gwyl Stephan, 1792,) yn meddwl mai fy nyledswydd yw gogoneddu enw Iesu, os gallaf, drwy agor y drws i'r efengyl dragywyddol fyned i blith y trueiniaid hyn; fy mrodyr, am hynny yr ydwyf wedi offrymmu fy mywyd i waith yr Arglwydd, gan ymddiried y gofala ef am danaf." Cyrhaeddodd Baltimore yn Hydref 1792; ymwelodd â Dr. Samuel Jones, o Philadelphia, ac aelod o Senedd America yn fuan wedi hynny, yr hwn a addawodd iddo ugain o wyr arfog i fyned gydag ef i'w ddiogelu rhag yr Indiaid ereill; dychwelodd i Baltimore, a threuliodd y gauaf yno fel *clerk* marsiandwr, am gyflog o 50 punt y flwyddyn; ail ymwelodd â Dr. Jones yn y gwanwyn, a chychwynodd o'i dŷ ef ar ei daith tua'r gorllewin, trwy Kentucky, yn nechreu Mawrth 1793, er y cynghorai y gwr hwnnw ef i aros nes cawsai ragor o gyfeillion. Mae y rhan nesaf o'r hanes yn dywyll. Bwriadai fyned o Baltimore i Fort Pitt, ac oddiyno i lawr yr afon Ohio tua St. Louis mewn cwch arfog; ond pa un a aeth felly, a pha rif o gyfeillion oedd ganddo, os oedd neb, nid yw hysbys. Yr hanes nesaf am dano yw ei fod wedi ei gymmeryd yn garcharor gan yr Yspaenwyr, y rhai oeddent ar y pryd mewn meddiant o Louisiana; ac oni buasai i'r swydddog Yspaenaidd ddweud am dano wrth G. Turner, un o Brif-farnwyr Americanaidd y tiriogaeth gogledd-orllewinol, ac i hwnw bleidio drosto, dichon y buasai iddo drengu fel carcharor yn St. Louis; ond gan farnu y buasai ei daith o les cyffredinol, cafodd Judge Turner gan yr Yspaenwyr nid yn unig ei ryddhau ond hefyd i roddi iddo *bassports* (diolch-ed y Cymro na wyr yn ymarferol beth ydynt) yn Yspaenaeg, Ffrengaeg, a Saesonaeg, i rwyddhau ei daith. Bernid y pryd hynny fod yr Indiaid Cymreig yn preswylio ar yr afon Missouri, ac mai y Padoucas oeddent. Esgynodd y Missouri gyda'r *Indian Traders* yn 1775, a chanddo nwyfau i'w gwerthu i'r Indiaid; yr oedd hefyd i wneud math o *survey* o'r wlad; a pha un a ddarganfyddai Fadogwys ai peidio yr oedd i gael dwy neu dair mil o *ddolars* oddiwrth yr Yspaenwyr. Dilynodd yr afon honno am dros 1300 o filldiroedd; ac yna dychwelodd i St. Louis. Pan glywyd am ei ddychweliad credwyd ei fod wedi cael allan y Madogwys; traethwyd y peth fel ffaith sicrhaol mewn llythyrau i Loegr; ac fel y gallo'r darllenydd weled sut y mae dychymmyg yn troi yn hanesyddiaeth, cyfieithaf ddarn o lythyr a ddanfonodd mab y Parch. W. Davies o Wlad yr Haf at ei dad. Dywed,

"Y mae Cymro ieuanc wedi dychwelyd o ymdaith faith a gymmerodd gyda bwriad i ddarganfod os oes y fath ddynion ag Indiaid Cymreig. Mae y person hwn wedi darganfod y cyfryw, yn preswylio gwlad oddeutu 700 milldir y tu gorllewinol i arllwysiad y Missouri; cafodd dderbyniad cyfeillgar a groesawus ganddynt, a derbyniasant ef fel mab. Eu hiaith oedd yr hen Frythoneg, a sylwodd efe yn neillduol fod y geiriau cyffredin yr un fath a'r rhai a arferir yn awr yng Nghymru i ddesgrifio yr

un gwrthddrychau, sef tai, goleu, ffenestri, dwr, bara, &c. Yr hanes a roddant o honynt eu hunain yw hyn, i'w hynafiaid ddyfod o wlad bell a glanio wrth arllwysiad y Mississippi, oddeutu y flwyddyn 1018, o dair llong ar ddeg; iddynt adeiladu tref yno, ac yn ystod amser iddynt ddyfod i'w preswylfa bresenol."

Wele ymdaith lwyddiannus, a hanes ddifyrus, onite? Nid oes ond un bai yn perthyn iddi, a hynny yw mai breuddwyd yw y cwbl. Ni welodd John Evans un Indian Cymreig; ni ddywedodd ddim o'r fath a briodolir iddo yma; ac nid yw y cwbl ond disgwyliad y Cymry yr amser hwnnw wedi ei droi i rith darganfyddiad. Cymhellwyd John Evans gan y Swyddog Yspaenaidd i fyned yr ail waith; ond bu farw o dwymyn yn St. Louis, yn 1797, pan oedd ar gychwyn; ac felly y terfynodd yr ymdaith ganmoladwy ond anffodus hon. Gorfu ar y rhai a gredent yn y Madogwys gynnal eu cred heb un ffaith sicrhaol; ac yn y cyfamser cafwyd profion boddhaol na wyddai y Padoucas ddim Cymraeg. (*Cambrian Register*, i. 380.)

Ond yr ergyd caletaf a gafodd y gred Fadogaidd oedd *Report* Clarke a Lewis. Prynwyd Louisiana gan y llywodraeth Americanaidd yn 1803; ac yn 1804 pennodwyd y Capteniaid Clarke a Lewis, gyda deugain o wyr, i arolygu yr holl diriogaeth o enau y Missouri hyd at y Mor Tawel; a rhoddwyd gorchymmyn neillduol iddynt chwilio am yr Indiaid Cymreig. Cychwynasant o St. Louis ar y 14eg o Fai 1804; dilynasant y Missouri am 2500 o filldiroedd; treuliasant y gauaf *ym mhlith y Mandans*, (y rhai yn ol tyb Mr. Catlin yw y Madogwys,) ond heb ffurfio un tyb o'r fath; ac wedi treiddio hyd at y Mor Tawel, ac aros yno hyd Fawrth 1806, dychwelasant i St. Louis ar y 23ain o fis Medi yn yr un flwyddyn, wedi bod ar eu taith wyth mis ar ugain. Ond ni welsant, ac ni chlywsant un son ar eu taith am Indiaid Cymreig. Dymchwelodd hyn ffydd yn agos pawb ond y Cymry; cymmerodd Southey, awdwr y gerdd arwrol a elwid "Madoc," gyfle yn ei ail argraphiad i addef nad oedd un lle i gredu fod Indiaid Cymreig ar y Missouri; gwrthwynebwyd y gred yn y Madogwys gan y Dr. John Jones; a bu dadleuon brwd yn eu cylch ym mhlith Gwyneddigion Llundain; ond tra y parhai llawer i gredu, yr oedd dynion eglurdrem fel y diweddar Walter Mechain wedi llwyr golli eu ffydd ynddynt; a thu allan i Gymru nid oes neb o un pwys yn credu yn y Madogwys yn awr.

Ond yr oedd Cymry lawer etto o'r hen farn yng Nghymru ac America; ac yn 1819 penderfynwyd gwneud ymdrech arall i'w cael allan, ac ar lanau y Missouri, er fod braidd pob milldir o'r cyfandir Americanaidd erbyn hynny yn adnabyddus. Nid oes un gwybodaeth beth a ddaeth o ysgrifau John Evans, os gadawoddd rai ar ei ol; ond ceir hanes yr holiad hwn gan y dyn mwyaf addas i'w roddi, sef yr holwr ei hun. Gofynwyd helynt y daith gan un a gyfenwai ei hun "Myfyr, Glandwrdwy," yn rhifyn Tachwedd, 1821, o Gyhoeddiad Cymraeg a elwid *Goleuad Cymru;* ac yn rhifyn Ebrill, 1822, ymddangosodd y llythyr canlynol fel attebiad :—

"Mr. Goleuawr,—Ychydig wythnosau yn ol dychwelais o anialdir Americ; a chanfyddais yn Ngoleuad Cymru (Rhifyn 37, tu dal. 283) ofyniad i'r perwyl hyn, sef, Beth a ddaeth o'r dynion a aethant o Utica a Stuben i ymofyn am y Madogiaid; a pha gynnorthwy a gawsant o Gymru? Yr wyf yn barnu mai fy nyledswydd yw ei atteb, gan mai myfi, a dyn ieuangc o'r enw William Perry, a neillduwyd i'r daith hono.

"Ynghylch tair blynedd yn ol, bu cynhwrf nid bychan yn swydd Oneida, yn yr Americ Ogleddol, fel lleoedd ereill ymhlith y Cymry, ymherthynas i eppil Madog ab Owen Gwynedd. Cytunwyd i ddau ddyn fyned i dref St. Louis, yr hon sydd ar lan

afon Mississippi, ychydig islaw arllwysiad y Missouri iddi, i wneuthur ymofyniad â'r masnachwyr sydd yn masnachu â'r Indiaid, ac hefyd â'u cyfeithwyr *(interpreters)*; ac i fyned ymhellach os caent ryw hanes boddlongar yno am danynt. Yr achos ein bod wedi myned i St. Louis yn hytrach nag i un lle arall, oedd oblegid fod yr Indiaid gorllewinol yn fwy adnabyddus yno nag mewn un lle yn yr Americ. Mae cannoedd o honynt yn dyfod i waered yno bob haf gyda chrwyn, gwêr, tafodau ychain gwylltion (*buffaloes*), siwgr, &c. Hefyd y mae ugeiniau yn myned bob blwyddyn o St. Louis a'i gororau, rai miloedd o filltiroedd i fynu yr afonydd Mississippi a'r Missouri i fasnachu â'r Indiaid, ac i hely.

"Cychwynasom i'r daith ar y 14*eg* o fis Ebrill 1819, a chyrhaeddasom i St. Louis ar y 28ain o'r mis canlynol. Gwelsom yno lawer o bobl ag oedd wedi bod filoedd o filltiroedd i fynu afon Missouri; hefyd rai oedd yn medru ieithoedd yr holl Indiaid sydd yn preswylio ar ddyfroedd y Missouri. Gwelais amryw a fuasent i fynu yr afon hono yn agos i bedair mil o filltiroedd, ac a groesasant y Mynyddoedd Carregog, ac a aethant i lawr afon Columbus hyd y Mor Tawel. Yr oeddynt oll yn dywedyd nas gwelsent lwyth o Indiaid gwynion mewn un lle; ond eu bod cyn eu cychwyn wedi clywed llawer o son am danynt, ac yn disgwyl cael eu gweled ar eu taith. Darfu i amryw o honynt holi llawer am danynt (meddent); ac y maent hwy yn bresenol o'r farn nad ydynt ar afon Missouri na'r afonydd sydd yn arllwys iddi. Gwelais amryw ddynion a fuasent yn preswylio lawer o flynyddoedd ymhlith yr Indiaid, yn lled agos i'r Mynyddoedd Carregog, lle y mae y Missouri yn cael ei tharddiad cyntaf. Yr oeddent hwythau hefyd yn haeru nad oedd y fath bobl a'r Indiaid Cymreig. Gwelais ddau, neu ychwaneg, o ddynion oedd yn dywedyd eu bod yn deall iaith y Padoweiaid, sef y rhai y mae llawer yn farnu ydyw yr Indiaid Cymreig; *ond nid oeddent yn deall gair o Gymraeg.* Mi a ymofynais yn fanol yn St. Louis a'i chymmydogaethau, am y rhai oll sydd yn deall ieithoedd yr Indiaid, (pa rai sydd amrywiol iawn), sef y Cyfeithwyr proffesedig, ac ereill. Dywedais wrthynt eiriau Cymraeg, megys haul, lloer, sêr, pen, troed, llaw, &c.; ond nid oedd un o honynt yn deall gair.

Gwelais lawer o Indiaid dyeithr yn dyfod yno ar amserau; dywedais wrthynt amrywiol eiriau Cymraeg; yr oeddynt yn fuan yn rhoddi eu bysedd yn eu clustiau, i amlygu nad oeddent yn deall. Aethym i Argraffdy yn St. Louis, a chefais argraffu yn eu Newyddiadur amrywiol o draddodiadau oedd wedi cael eu dywedyd ymherthynas iddynt; a bod dau ddyn wedi dyfod yno i eu chwilio allan; a dymuniad ar eu Gohebwyr i roddi eu hanes os gallent. Ymddangosodd y pethau hyn mewn Papyrau Newyddion ereill o dref i dref dros gannoedd o filltiroedd oddiyno hyd New Orleans yn agos i Llynclyn Mexico: ond ni chafwyd gair o'u hanes. Darllenais yno waith yr Uwch-ganwriad Stoddart, sef hanes y gorllewinol barth o America. Yr oedd ef yn dweyd fod llwyth yn preswylio ar yr afonydd Arkansas a Red River, dan yr enw *Ietans* neu *Alitans.* Gwelais rai oedd yn dywedyd eu bod yn deall iaith y rhai hyn: aethym attynt, gan ddisgwyl y gallaswn ymddyddan â hwy yn iaith fy mam; ond nid oeddent yn deall gair o Gymraeg.

"Felly, yn y cwbl, ni ddaethym i gyrhaedd un wybodaeth sicr am hiliogaeth Madog. Yr wyf fi yn awr wedi cael boddlonrwydd oddiar dystiolaeth y rhai a fuant yn tramwy y wlad, *nad ydynt yn preswylio ar afon Missouri.* Er hynny anhawdd genyf benderfynu yngwyneb yr holl ddywediadau ymherthynas iddynt nad ydynt mewn bod. Gallaf ddywedyd yn gadarn *mai celwydd ydyw llawer a ddywedwyd am danynt:* pe byddent o fewn dwy neu dair mil o filltiroedd ar y Missouri, yr wyf yn meddwl nas gallent fod yn anadnabyddus i ddynion a welais i yn St. Louis. Preswyliais fwy na dwy flynedd yn y dref hono a'i chymmydogaethau. Aeth fy nghyfaill Perry saith gant o filltiroedd i fynu afon Missouri ar achos arall. Clywais oddiwrtho yr haf diweddaf.

"Y cynnorthwy a gawsom o Stuben oedd ddigon i ddwyn ein traul i St. Louis: ni chawsom ddim o Gymru. Hawdd fuasai cael ychwaneg o gynnorthwy pe buasem yn gweled yn ddoeth i fyned ymhellach.

"Wedi y cyfan, da ydyw genyf feddwl fod un ffordd sicr i gael hyd iddynt (os ydynt mewn bod) pe byddai pob moddion ereill yn aflwyddiannus; sef drwy anfon yr Efengyl dragywyddol at bob cenedl dan y nef. Y mae genym addewid y di-

gelwyddog Dduw y daw yr Efengyl o hyd i bob iaith, llwyth, cenedl, a phobl. Da iawn fyddai pe bai ymdrechiadau egniol yn cael eu gwneud i anfon yr Efengyl at y lluoedd aneirif o Indiaid sydd ar anialdir maith America; y rhai sydd yn awr mewn dygn dywyllwch. Y mae rhai Cenadon a chelfyddwyr wedi eu danfon i ochr orllewinol y Mississippi; ac y mae yr Arglwydd wedi coroni eu hymdrechiadau â graddau helaeth o lwyddiant. Yr wyf yn bwriadu dychwelyd yn ol i America yn fuan; ac os caf unrhyw hanes o bwys ymherthynas i'r Madogiaid, ni fyddaf yn ol o'i anfon i'm cyd-genedl.

"Ydwyf, &c.,

"*Rosa Fawr, gerllaw Dinbych, Mawrth* 14*eg*, 1822. JOHN T. ROBERTS."

Rhoddais y llythyr synwyrol hwn yn gyflawn; a barnaf y bydd y rhan fwyaf o'i ddarllenwyr yn teimlo gyda'r ysgrifenydd mai anwiredd a dychymmygion disail oedd y cwbl a ddywedwyd am fodoliaeth Indiaid Cymreig ar afon Missouri. Dywedwyd gan dystion lawer, ond y rhan fwyaf ar ail law, eu bod yno, ac mai y Padowciaid oeddent; ond gellir dweud yn benderfynol yn y gwrthwyneb, ac ar sail holiadau dynion addas i farnu, na wyr y Padowciaid un gair o Gymraeg, ac nad oes Indiaid Cymreig ar afon Missouri. Mae deugain mlynedd wedi myned heibio oddiar ymchwil Roberts, a miloedd yn tramwy yr holl diriogaeth yn flynyddol; ond y mae Madogwys y Missouri heb eu darganfod etto. A chan nad ydynt yno, pa le y maent? Attebed y crediniol.

Dywedir yn wir, ar sail tyb Mr. Catlin, a chan awdwr Cymreig cyfrifol, sef y Parch. Robert Williams (*Biog. Dict. of Eminent Welshmen*, Erthygl Madoc), mai anwiredd oedd llawer a ddywedwyd am Indiaid Cymreig, ond y dichonai mai y Mandans oeddent. Rhydd Catlin amryw o eiriau a eilw ef yn Gymraeg; ond y gwir yw mai Ffrengaeg ydynt. Bydd un gair yn ddigon fel enghraifft. Fel rheol y mae'r ieithoedd Indiaidd yn amddifad o ragenwau; ond y mae y Mandans, yn gystal a'r Sioux ac ereill, wedi dysgu rhai oddiwrth Ffrancod ac Yspaenwyr y parthau deheuol o'r Americ. Rhagenw lluosog cyntaf y Mandans yw *noo*, yr hwn sydd i'w seinio fel *oo* yn *too*= *tw*, h. y. *nw*. P'un ai Cymraeg ai Ffrengaeg yw hwn? Y gair Cymraeg yw *ni*: ond y rhagenw Ffrengig yw *nous*, yr hwn a seinir yn uniawn fel uchod, sef *noo*, neu *nw*. Etto, dywed y Sioux *chay*=tebyg i *shei* yn Gymraeg, yr hwn a ettyb yn uniawn i'r Ffrengaeg *J'ai*, yr hwn sydd gyfystyr ag *I have* yn Saesonaeg. Bu'r Ffrancod mewn meddiant o Louisiana am lawer o flynyddoedd; y mae rhan fawr o'r trigolion yn Ffrancod etto; ac yr oedd masnach helaeth rhyngddynt a'r holl lwythau Indiaidd. Ofer gan hynny yw ymdrechu gwneud Cymry o'r Mandans; ac nid ydynt hwy yn un eithriad i'r gosodiad—Nad oes dim Indiaid Cymreig ar afon Missouri.

Ond os nad ydynt yno, oni allant fod yn rhyw ran arall o'r Amerig? Bu y diweddar Lieut. Ruxton am flynyddau yn Mexico, a thybiai efe mai y *Moquis* oedd yr Indiaid Cymreig, o herwydd yn gyntaf fod yr enw *Moquis* yn debyg i "Madogwys", ac yn ail fod y Moquis yn gwau gwlenyn tebyg ym marn hen "negro-woman" i wlanen Gymraeg. Ar yr un tir gellid dweud mai Seison yw y Sioux, mai Rhufeiniaid yw y Rapahos, mai Germaniaid yw y Camanches, ac mai Groegiaid yw y Crows, Creeks, a Cherokees. Os yw y prawf yn foddhaol, gwnaed y darllenydd yn fawr o hono.

Amcanodd y Seintiau diweddaf hudo y Cymry tua'r Llyn Halen, trwy ddweud fod yr Indiaid Cymreig yn y gymmydogaeth honno; ac y mae ymdrechion o'r fath yn cael eu gwneud yn America yn awr. Gocheled y

Cymry rhag rhoddi cred i ddim o'r fath: y maent wedi credu gormod o gelwyddau eisioes.

Yr hanes ddiweddaf a welais, a ddaeth o Galifornia, oddiwrth Mr. J. T. Roberts, ac a gyhoeddwyd y llynedd yn yr America. Oedd i'r perwyl hwn, fod un Mr. Gilman wedi dweud wrth Mr. Roberts, fod hen wreican yn agos i'r Llyn Halen wedi dweud wrth Mr. Gilman, fod Indiaid Cymreig wedi ymweled â hi. Pe buasai Mr. Roberts ei hun wedi cyfarfod ag Indian a siaradai Gymraeg, buasai y dywediad yn werth ychydig o sylw; ond wedi gweled cymmaint o haeriadau pendant wedi troi yn anwireddau noethion, ni fydd un dyn deallus yn barod i gredu trydydd adroddiad o dystiad hen wreican, heb wybod fod y fath hen wreican mewn bodoliaeth sylweddol, ei bod yn gwybod Cymraeg, ac na thwyllodd ei hun trwy y gred a arddangosir yn yr holl hanesion hyn—fod pob peth Indiaidd yn rhwym o fod yn Gymreig. Tystiai y Capt. Stothard fod 60 o'r Ietans wedi ymweled â thref a elwid Naekitoctes, ac wedi siarad Cymraeg yno; ond cafodd Roberts weled mai anwiredd oedd hyn, er ei fod yn gadarnach na chwedl yr hen wraig.

Traethais gymmaint a hyn er difyrwch ac hysbysrwydd i'r darllenydd; ond dichon na chaf amser i sylwi yn fwy manwl ar y tystiolaethau rhagflaenol; ac am hynny traethaf fy marn ar unwaith, sef,

1. Nad oes, ac na fu erioed y fath bobl ag Indiaid Cymreig; ac nad yw yr holl hanes ond twyll a dychymmyg.

2. Na ymadawodd Madog ab Owen Gwynedd erioed o'r Dywysogaeth; ac mai chwedl ddychymmygol yw hanes ei fordaith ef.

3. I Madog gael ei ladd tua Sir Fon rhwng O. C. 1164 a 1169; ac os na fu "adgyfodiad y meirw" yn yr amser hwnw, nid oedd un possiblrwydd iddo hwylio i'r Amerig yn O. C. 1170.

Creded a gredo, nid oes un sail i'r gred ond rhagfarn.

T. Stephens.

Awdurdod Iuddewaeth.—Yr oedd Moses yn gyfryngwr ac yn ddeddfroddwr i'r Iuddewon yn unig, i'r rhai y rhoddodd ef y gyfraith. Os cymeraf Moses mewn un gorchymmyn, y mae'n rhaid i mi gymeryd y cyfan o Moses. Y mae Moses wedi marw. Y mae ei oruchwyliaeth wedi terfynu. Nid yw efe bellach yn perthyn dim i ni. Mi dderbyniaf Moses fel dysgawdwr, ond nid fel deddfroddwr, oddieithr lle mae efe yn cyduno â'r Testament Newydd, neu â chyfraith nattur. Pan byddo rhyw un yn dwyn Moses a'i orchymmynion ymlaen, ac yn dymuno dy orfodi i'w cadw, atteb iddo fel yma: Cerdd at yr Iuddewon â'u Moses. Nid wyf fi ddim yn Iuddew. Os cymeraf Moses mewn un man, y mae'n rhaid i mi gadw'r holl gyfraith. Os dywedant, "Y mae Moses wedi ei orchymmyn," gad di i Moses fyned: a dywed, "Nid wyf fi yn gofyn beth y mae Moses yn ei orchymmyn." "Ond meddant, "y mae Moses wedi gorchymmyn i ni gredu yn Nuw, ac i beidio cymeryd ei enw yn ofer, ac i anrhydeddu ein tad a'n mam, &c.; onid rhaid i ni gadw y gorchymmynion hyn?" Atteb hwynt fel yma: "Y mae nattur wedi rhoddi'r gorchymmynion hyn; yr wyf fi yn cadw y gorchymmynion a roddodd Moses, nid oblegid ei fod ef wedi eu gorchymmyn, ond oblegid fod nattur wedi eu plannu ynof." Ond os dywed rhyw un, "Gair Duw yw'r cyfan," atteb iddo fel yma: "Gair Duw yma, gair Duw accw, y mae'n rhaid i mi gael gwybod nid yn unig mai gair Duw ydyw, ond pa un ai wrthyf fi ai wrth arall y llefarwyd ef. 'Y mae genym ni yr efengyl.'"—Luther.

Bydd y foment y byddo dyn yn cau ei lygaid yn angau i gael ei ganlyn yn union gyda sain yr udgorn diweddaf, yr hwn a ddeffry'r meirw, hyd yn oed os bydd oesoedd ar oesoedd wedi myned heibio.—Whateley.

TREFNIAD CEGIN Y GWEITHIWR.

But wreathe roses enough to form a chaplet Domestic,
Soon shall my silver locks twine like the lilies therein.
Let the wife stir up the fire, and sweep up the hearth for the roasting,
Let the boy, busy at play, throw on the fagot in aid.—GOETHE.

I'R gweithiwr mae ei *gegin* yn lle pwysig, a'r pwysicaf efallai, oddieithr ei ystafell wely, gan mai ynddi y treulia y rhan fwyaf o'i ychydig oriau hamddenol ar hyd yr wythnos. Mae yn wir fod sefyllfa ambell un mor dlawd ag i'w orfodi i wneuthur ei wely ynddi, ond nid yw hyn, debygem, yn gyffredin; a pha le bynag y ffyna y fath arferiad, diau ei bod i'w chondemnio fel yn dra niweidiol i iechyd a glanweithdra. Nid yw y gweithiwr yn ddideimlad o gychwyniad ei oes, a graddol ymsymuda yn mlaen, gan awyddu ymbellhau oddiwrth bob peth yn yr hen ddull o fyw ag oedd yn ymylu ar y brwnt, yr afiach, a'r anifeilaidd, tra nad oes neb a anwyla yn fwy nag efe y symledd a'r anfoethusrwydd a berthynent i oes y tadau. Teimla yn fwy cartrefol yn ei gegin nag yn un rhan arall o'r ty. Mae ei barlawr, os medda un, i'w gadw ar gyfer achlysuron arbenig o ymweliad cyfeillion a cheraint; ac nid ymwela â'i ystafell wely ond i ddiluddedu ei gorff ar ol caledwaith y dydd. Yn y gegin mae ei gadair freichiau—ei deyrngadair ef fel brenin y teulu; yma y cyfranoga bob hwyr o swper adfywiol; yma y dyga yn mlaen ei ymddyddanion serchus â phriod ei fynwes; yma y cysegra lawer awr i wrteithio ei feddwl cyn huno dros nos; ac yma, gyda gwên iachus a rheswm difyr, yr esmwythâ ei feddwl gyda phibell fer felus, ag sydd iddo yn gydymaith nid annyddan. Yma hefyd y mwynhâ gwmni llawen ei rai bychain, y chwareua â hwynt fel pe yn blentyn ei hun, ac yr ymwrendy â'u cyfrifon ffraeth o ddygwyddiadau pwysig y dydd. Teimla ryw swyn cartrefol annarluniadwy yn ngwres tân aelwyd y gegin—tân coch, eirias, cynhes, mawr, danllwythaid o hono,—nid rhyw gragenaid gochddu, fyglyd, oeraidd, gywilyddgar, o'r fath a welir mewn ambell barlawr dangosiadus yn y dyddiau hyn. A chant i un, os mai ymfudydd o barthau amaethyddol y rhan fynyddig o'r wlad fydd, na chofia am hen aelwyd gynhes ac eang a chariadus ei gartref, lle, ar hirnos gauaf, wrth y tân mawn ar y llawr, digon i wneyd coelcerth angladdol i Hercwlff ei hun, yr eisteddai y teulu o amgylch, pob un a'i law yn ddiwyd wrth ryw orchwyl ysgafn a difyrus; pan y byddai chwedl ddigrif y tad, a cherydd mwy digrif y fam, yn lloni pob gradd, ac yn gyru trwy gonglau pellaf y cronglwydydd adsain y chwerthin calonog. Os geilw cymydog i ymgomio am helyntion y wladwriaeth, neu ddygwyddiadau yr ardal, neu galedi yr amserau, yn y gegin y cymhellir ef i eistedd; ac o fewn ei pharwydydd y llifa ffraethebau ac y traddodir ambell lith grymus na fyddai achos i'r seneddwr craff, neu yr hanesydd llithrig, gywilyddio o'i herwydd. Y gegin hefyd i'w ystafell ddarbodawl y teulu; ac yma o foreu hyd hwyr y dyg ei wraig lafurus ei gorchwylion dyddiol yn mlaen, heb y rhai ni byddai cartref yn gartref yn wir, nac yn wahanol iawn oddiwrth ryw le cyfleus arall i fwyta, siarad, a gorphwys. Y wraig yw brenines y gegin, wrth fraint a defod oesau; ynddi y cynalia ei llys, a phawb ydynt yma ei hiswyddogion i wylio am ei hamnaid a chanlyn ei chyfarwyddyd. Ni ddeall neb achosion y llys hwn yn debyg iddi, ac ni fedra neb eu trin mor hylaw. Boed y dysgleidiau melusion a huliant ei bwrdd, a'r gwisgoedd glanwaith a brydferthant ei phlant a'i gwr, a'r dodrefn a belydrant gan ddysglaerdeb, yn

dystion o'r gwyrthiau a effeithia. Iddi hi yn benaf y perthyn y clod neu yr anghlod am y drefn neu yr annhrefn a ganfyddir yma, ac na cheisied neb rhyw un ddwyn ei choron hi. Ei medr a'i phrofiad hi yn unig a sicrhaent draethawd gorchestol ar y testun hwn; a phan yr ymgymerwn ni ag ysgrifenu, teimlwn pa mor anhawdd yw gwneuthur cyfiawnder ag ef; ac nid ysgrifenem o gwbl oni feddem yn gymhorth a chefnogaeth ryw gymaint o sylw ag ydym wedi dalu i ambell gegin gymhwys i wasanaethu fel cynllun ar ba un i ffurfio ereill. Mae y ffaith nad yw llawer cegin y peth y dylai fod, naill ai oddiar esgeulusdra neu anwybodaeth ar un llaw, neu ddallineb a chybyddddod meistri ac adeiladwyr tai ar y llall, ynghyd a bod iawn drefniad yr ystafell hon o'r pwys mwyaf er iechyd a chysur y teulu, yn ein cymhell i gynyg rhai sylwadau ar y pwnc.

Dylai y gegin fod yn ddigon *eang* i ganiatau ei le i bob peth. Mae rhai ystafelloedd a ddygant yr enw mor gyfyng a chauedig nes yw y dodrefn yn un sarnfa anghymen, y naill ar gefn, yn ngoleu, neu dan draed y llall. Arweinia y cyntedd ni yn mhen cam neu ddau ar draws ei mawrhydi, y seld. Rhaid i ni wylio ar bob ysgogiad rhag gwneyd o honom y badell goch olchi yn fil o lestri. Bydd yr ystôl deir-troed rywfodd yn sicr o daro yn erbyn y man y mae ein crimog yn dygwydd bod. Rhwng y ford gron a'r bwrdd hir wrth y ffenestr, a dwy neu dair o gadeiriau, a chynifer o feinciau ac ystolau bychain; a'r cloc mawr wyth diwrnod sydd a'i gefn yn gadarn ar y wàl, fel pe yn benderfynol i gadw ei le, (os nad rhyw yspryd o un, gyda llais cras, gwichlyd, Ianciaidd, fydd yno yn ei le,) a'r cwpwrdd cornel a ymddengys mor gryno ac annibynol yn y gongl, yn yr hwn y mae y cwpanau a'r dysglau tê gloewon yn edrych yn llygaid eu gilydd, neu yn taclus orwedd yn eu gilydd fel cynifer o fês,—heb son dim am gell fawr y bwyd a silff y llyfrau, a'r cawell magu, a chryn dwysged o anhebgorion eraill;—rhwng yr holl amledd hyn o bethau, mae un yn barod i feddwl fod y fath gegin yn meddu ar ryw allu cynwysol ail i gostrel yr arferyll *(alchemist)* gynt, cyn y gallai teulu o bump neu saith droi ac ymsymud ynddi. Mae yn anhawdd penderfynu yn gywir pa beth ddylai fod lled, hyd, ac uchder pob cegin, gan y dibyna hyn i raddau pell ar nifer y teulu, lluosogrwydd a maint y dodrefn, ac ystyriaethau ereill. Ni ddylent oll yn ddiamheuol fod o'r un helaethrwydd, gan na chyrhaedda yr un llinyn mesur dros bob teulu, ac y gofyna pob bôd dynol, nad pa mor fychan, ryw gymaint o le i osod gwadn ei droed i lawr. Adeiledir tai i weithwyr yn aml gyda chymaint o unrhywiaeth mewn dull a maint â thai gwenoliaid, ond gyda llawer llai o ofal am eu bod yn ddigon eang a chyfleus i'r teuluoedd ag ydynt i'w trigiannu. Gall pob teithiwr wrth fyned heibio ddweyd, heb ofyn i neb, 'tai gweithwyr yw y rhai yna; maent oll o'r un ffurf a maint, ac O mor fychain!' Gwyddom am dref nid anenwog yn Nghymru, lle y perodd trachwant arian ac amddifadrwydd gresynol o bob chwaeth ddynol a Christionogol yn y meistr iddo ddihatru gogoniant oesol muriau hen briordy anrhydeddus a'u cydwastadhau â'r llawr, er mwyn codi â defnyddiau yr adfeilion rês o dai i *weithwyr*, nad oeddynt well nag ystablau ffermwr canolig, heb grybwyll am rai tra godidog y boneddwr ei hun! Ac os bydd y tai yn fychain, canlyna nas gall y ceginau fod yn eang, os derbynia yr ystafelloedd ereill eu rhan briodol. Trueni na chai y gweithiwr o bawb ddigon o le i estyn ei aelodau ac ymuniawnu ar lawr ei gegin, wedi llafur y dydd.

Dylai cegin y gweithiwr gael ei *goleuo* yn briodol. Ni chyst goleuni yr

haul ddim iddo ef mwy nag i ereill, ond ni ddaw i mewn oni roesawir ef â ffenestr ledan, uchel, glir. Y mae y ty tywyll yn un o'r cospau y mae doethineb ddynol wedi eu dyfeisio i boenydio troseddwyr; ac nid ysgafn hi, medd y rhai a'i profasant. Mae ambell deulu yn byw mewn niwl tragywyddol, a'r plant mor welw a gwanaidd a phlanigion meddal rhyw gell dywell dan-ddaearol; a'r wraig, heb wrid na phrydferthwch, yn ymbalfalu yn ei thrafferth heb oleuni i gyflawni ei mân a'i manwl orchwylion. "A weli di fel y mae yr haul yn dangos y lluwch ar y dodrefn?" sydd ymadrodd nid anghynefin i forwynion amaeth-dai Cymru, yn dyfod fel y gwna gyda gwên a pharabl tra annghamsyniadwy oddiwrth y feistres. Ond druan o wraig y gweithiwr, ychydig o belydr yr haul yn aml a gant y fantais i fod mor wasanaethgar i'w chegin hi. Gall y lluwch orwedd yn dawel a digywilydd ar y byrddau; gall traed y cadeiriau lechu o wydd pob llygad yn y cysgod; a chaiff arogl a theimlad yn hytrach na'r synwyr priodol ddwyn tystiolaeth i ddiffyg glendid. "Hyfryd yw i'r llygad weled yr haul," ac nid anhyfryd i lygad y gweithiwr a'i deulu mwy nag i ereill. Mae yn ysgafnhad i feichiau y tlawd a'r truain y gallant weled gwedd ogoneddus yr haul, a theimlo ei wres fywhaol, gyda'r un hawl a'r pen coronog. Ac onid awgrymiadol i'r eithaf oedd atebiad yr athronydd taeog i goncwerwr y byd pan ofynai yr olaf pa beth a ewyllysiai oddiar ei law,—"Dim ond i ti beidio sefyll rhyngwyf a'r haul." Mae yn ffaith wybyddus fod goleuni yn hanfodol i dyfiant, nerth, gwawr, a lliw, yn gystal ag i foddiant a chysur mewn ystyr llai pwysig. Byddai terfyn ar wyrddlesni y glaswelltyn, ar gadernid y dderwen, ar rawn llwythog y dywysen ŷd, ac ar yni gewynog pob creadur, oni b'ai cyflawnder o oleuni yr haul.

Dylai pob cegin hefyd gael ei *hawyro* yn dda—y gegin yn anad un ystafell arall, gan y treulia y teulu fwy o amser ynddi, ac y llenwir hi gan gymaint o luwch, anweddau, ac ysgarthion. Er mwyn gollwng i mewn ddigon o awyr bur yn gystal a goleuni, dylai y ffenestri fod o faint a gwneuthuriad a chyflead priodol; ac os byddant felly, esgeulusdra beius yn unig ar ran y teulu a all beri amddifadrwydd o ddigon o bob un o'r ddau. Gwyr y rhan fwyaf mor angenrheidiol i fywyd ac iechyd yw awyr bur, fod y dosparth lluosocaf o'r rhai a fagant y ddarfodedigaeth wedi neu yn dyoddef oddiwrth brinder awyr, ac nad oes ond ychydig o glefydau mewn cymhariaeth nad ellir eu dilyn i'r unrhyw achos. Pasia yr anadl i mewn ac allan o gylch ugain gwaith bob mynud, a thynir i mewn o ddeg ar ugain i ddeugain modfedd chwe-ochrog *(cubic)* o awyr gyda phob anadliad, fel y gwna dyn ddifa galwyn o awyr yn y cyfryw yspaid o amser. Hyn a ddengys pa gyflenwad parhaus o awyr a ddylai fod mewn trefn iddi weithredu yn barhaol ar y gwaed yn yr ysgyfaint, a thrwy hyny wasgaru gwres a grym drwy yr holl gorff. Mae simne ag iddi agoriad uchel yn wasanaethgar iawn i gario ffwrdd yr awyr afiach y byddis wedi ei hanadlu o'r blaen a'i gwaghau mewn canlyniad o'r ufelai a sugnir gan y gwaed er ei borthiant a'i barhad; tra er mwyn gollyngiad awyr bur i mewn y dylid taflu yn agored y ffenestr, yn enwedig yn y rhan foreuol o'r dydd, pan yw yr awyr fwyaf iachus. A chyfaddef y gwir, y mae gweithwyr y glo a'r haiarn, gan amlaf, efallai, yn deall ac yn arfer hyn oll yn awr; ond cyfarfyddwn ag eithriadau yn eu plith hwy; a dios y rhaid i oes neu ddwy eto farw o'r diffyg anadl a'r darfodedigaeth cyn yr argyhoedder y tyddynwr mynyddig, (yr hwn a fuasai yn gelain er ys blynyddau *oni b'ai* ei fod yn yfed awyr hyfryd y mynydd agored), a llawer o

dyddynwyr brasach yr isel-diroedd, fod unrhyw bwys neillduol mewn newid yr hen ffenestr blwm, gadarn, dywell, am un newydd, eang, ddwy-ranol, a goleu; na pherygl yn y byd iddo gau ei hunan i fynu dros y nos mewn hen wely cwpwrdd tebycach i hen gist nag i ddim arall. Er holl fuddygoliaethau gwyddor ar anwedd a gwefrdan, ar uchder a dyfnder, erys ambell Gymro anhyblyg (parch iddo er hyny) draw ar y llethri a'r mynyddau, ac fe ddichon yn mhyllau y glo ac ogofau yr haiarn, nad yw hyd yma wedi plygu glin iddi, na chydnabod uniondeb ei theyrnwialen. Ond neshau y mae yr amser. Ac na wnaed y gweithiwr, ag sydd bob dydd yn dysgu trwy brofiad pa mor wir yr hyn a ddywed gwyddor wrtho a pha mor nerthol ei dylanwad, nacâu derbyn oddiwrthi yr un wers syml a didrafferth hon, o roddi digonedd o awyr bur i'w gegin, ac i'w wraig dirion a'i blant bychain ynddi. Arbedai hyn iddo lawer taith drwstan i dŷ y meddyg, a llawer coron werthfawr, yr hon y gallai ei chyfnewid am ryw fendithion tymorol, a'i throi i wasanaeth tra buddiol yn nygiad treuliau addysgiaeth ei deulu.

Mae o gryn bwys i ochelyd cegin *fyglyd*. Mewn gwirionedd nid oes heb hyn awyriad priodol. Mae yr ystafell yr ysgrifenwn ynddi yn llawn mwg, fel y teimlwn o galon yr hyn a geisiwn ei wasgu ar feddyliau ein cydweithwyr. Dylai lle y tân mewn cegin fod yn dra chyfaddas tuag at hwylysu y ddyledswydd bwysig o goginio. Rhaid i'r gradell *(grate)* fod yn ddigon mawr ac o ffurf gyfleus, nid yn rhy gul nac yn rhy ben-agored. Mae fod yr agoriad i'r simne yn gul ac isel, er, yn ol barn rhai, yn fwy ffafriol i sugniad y mwg, yn rhy barod i rwystro esgyniad awyr afiach yr ystafell; a dibyna mwy ar luniad y simne a dull yr ysgogiad, er tynu y mwg, nag ar uchder neu isder yr olaf. Mae y gredyll llydain, dyfnion, yn awr mewn arferiad cyffredin, gyda darpariadau ar gyfer helaethu neu gulhau lle y daullwyth, ynghyd a phentanau glanwedd o bob tu, yn engreifftiau tra dedwydd. Dylid gofalu cadw can lleied o ludw yn, a than y tân ag a ellir,—y pentanau yn loew; a glanhau y simne yn ddigon mynych, fel na syrthio yr huddygl ac na rwystrer y mwg yn ei daith. Mae genau rhy ben-agored, fel genau rhythol ambell hurtyn, yn gollwng i waered ormod o wynt ar dywydd cyfnewidiol, ac yn danfon y mwg drwy y drws allan, yn hytrach na gadael iddo gymeryd ei lwybr ei hun. Oblegid hyn dylid darparu rhyw drosglwyddai ar luu crochan neu ystên bigfain, neu hen ystôl deirtroed cyn colli, er rhoddi llai o fantais i'r gwynt ddisgyn, a mwy i'r mwg esgyn, drwy enau y simne. Mae yr hen lwferi Cymreig bron allan o arferiad yn awr; ond rhai braf oeddynt, gyda'u mentyll ymledol, cymhwys i gario ymaith yn ddyogel dunelli o fwg, ac i ganiatau encyd digon helaeth i'r aelwyd i gynwys holl aelodau y teulu lluosocaf, heb raid iddynt ddamsang ar fodiau eu gilydd. Rhy anhawdd i'r wraig gyda'i holl ddeheurwydd ac ymroddiad, barotoi bwydydd iachus a blasus, os mai yn nghanol mwg y gorfyddir hi i wneyd hyn. Bydd ei adflas ar y dwfr yn y tê-gell, ar y cawl yn y crochan; ar y bwdram, y llymry, a'r llaeth; ar y cig a rostir, ac ar y bara a bobir. Gedy ei argraff ar bob peth o fewn y ty: dua wawr ddysglaer goch-euraid y dodrefn caboledig; llychwina y cloriau a'r canwyllbreni, y gefeiliau a'r llwyerau, a thaena ryw swyf bardduol dros y gwyn-galch neu y bapyr-len a wycha barwydydd yr ystafell. Bydd llian-grysau y gwr a chapiau y wraig mor felynaidd a phe erioed heb eu cànu. Adwaenir yr hwn sydd mor anffodus a byw mewn cegin fyglyd, wrth ryw sawyr anhyfryd, gan bawb a'i cyfarfyddant yn yr heol, neu ar y Sabboth yn y capel. Mae arogl mwg tywarch bythod pryd-

ferthion Sir Aberteifi, ac eiddo gwrysg a gwiail a choed holltedig rhandiroedd coediog rhai parthau o Sir Gaerfyrddin yn goglais y ffroenau yn arw; ond nid yw haner mor wrthwynebus a sawyr cryf rhai o geginau myglyd y gweithwyr glo a haiarn yn Morganwg a Mynwy. Gellid haner tybied fod rhywbeth yn beraidd yn y blaenaf, ond am yr olaf gwareder ni rhagddo megys oddiwrth gadnaw, neu y creadur adgas hwnw na ellir ei hela gan y sawyr anoddefadwy a fwria o'i ol wrth redeg. Mae yn anmhosibl traethu pa effeithiau a ga y fath geginau ar iechyd teuluoedd, yn meithriniad clefydau dihoenus ac angeuol, yn neillduol lle y byddo yn barod ragdueddiad cyfansoddiadol i ddiffyg anadl, gwan-dreuliad a llwgfeydd.

(I'w barhau.)

HANES YR IUDDEWON.

RHIF. III.

Canlyniedydd Saul ar yr orsedd ydoedd Dafydd, yr hwn ydoedd wedi ei eneinio yn flaenorol. Nid oedd y tywysog hwn ar y dechreu yn teyrnasu ond ar lwyth Judah yn unig; ond ar ol marwolaeth Ishbosheth, mab Saul, efe a deyrnasodd ar holl Israel. Aeth Dafydd trwy lawer o beryglon, arweiniwyd ei fyddinoedd i lawer brwydyr, a gorchfygodd amryw genedlaethau, megis y Philistiaid, y Moabiaid, yr Ammoniaid, a'r Syriaid; a thrwy ei weinyddiadau doethion a grymus efe a gyfododd ei bobl i sefyllfa o lwyddiant a dedwyddwch cenhedlaethol. Yn y rhan olaf o'i deyrnasiad cyfarfu â gofidiau teuluaidd, a bu mewn perygl oddiwrth wrthryfel ei ddeiliaid, oblegid fod amryw o honynt yn bleidiol i amcanion uchelgeisiol ei fab Absalom; ond efe a gafodd fyw nes gweled ei elynion wedi eu gorchfygu, ac efe a adawodd ei deyrnas i'w ganlyniedydd mewn agwedd flagurol a llwyddiannus. Yr oedd Dafydd, er iddo gyfeiliorni mewn llawer pwnc, yn ddyn o dalentau, dewrder, a duwioldeb mawr; fel cyfansoddwr barddoniaeth grefyddol er gwasanaeth eglwys Dduw, fe'i cofir ac fe'i rhyfeddir trwy holl oesau y ddaear.

Solomon, ei fab doeth a chyfoethog, a'i canlynodd ef ar yr orsedd; a thrwy holl yspaid teyrnasiad Solomon ar Israel mwynhaodd ei ddeiliaid heddwch a llwyddiant gwladol. Y gorchwyl mwyaf pwysig a gyflawnodd Solomon oedd adeiladu a chysegru teml Dduw. Gorphenwyd hi mewn saith mlynedd, ac yr oedd yn adeilad tra gorwych ac addurniadol: ac oherwydd gwerth ei defnyddiau, a pherffeithrwydd y gwaith cywraint oedd arni, cyfrifid hi yn un o brif adeiladau yr hen oesau. Nid oedd hi yn fawr iawn ei maintioli, sef ychydig dros bedwar ugain a deg o droedfeddi o hyd, deg ar hugain o led, a phump a deugain o uchder; ond yr oedd y cynllun yn rhagorol, a'r addurniadau arni yn hardd. Ar ol i Solomon orphen adeiladu y deml, efe a osododd y crefftwyr ar waith i adeiladu tri adeilad arall, sef dau iddo ei hun, ac un i ferch Pharaoh; a gorphenodd adeiladu y rhai hyn mewn yspaid tair blynedd ar ddeg; ac mewn trefn i gael modd i ddwyn traul yr holl adeiladau hyn, a chael defnyddiau gwerthfawr i'w haddurno, efe a adeiladodd lynges *(navy)* ar draeth y Mor Coch, ac a'i rhoes dan ofal morwyr medrus o Tyrus,

y rhai, gyda'i bobl ef ei hun, a aethant i Ophir, yr hwn le fel y tybir oedd mewn rhyw ran o fôrlandir dwyreiniol Affrica; ac mewn oddeutu tair blynedd dygasant yn ol bwysi dirfawr o aur ac arian, heblaw llawer math o feini gwerthfawr, a thrysorau drudfawr eraill; yr oedd masnach Mor y Canoldir hefyd, yr hon oedd yn cael ei dwyn yn mlaen gan fasnachwyr o Tyrus, a masnach tufewnol yr Aifft, Arabia, ac Assyria, oll yn cyfranu at ychwanegu cyfoeth Jerusalem; ac felly o'r gwahanol daleithiau hyn yr oedd defnyddiau gwerthfawr yn cael eu cludo iddi, fel y gellir dywedyd yn iaith ffigurol yr hanesydd sanctaidd, fod "arian yn Jerusalem fel cerrig, a chedrwydd fel *coed sycamor*." Heblaw yr adeiliau a enwyd, darfu i Solomon adeiladu amddiffynfeydd yn *Lebanon*, er sicrhau, mae'n debygol, fasnachaeth rhwng ei deyrnas ef a Syria. Efe a adeiladodd ddwy ddinas fel gorsafion i ddiogelu ei fasnach ar hyd y tir; y rhai hyn oeddent Tadmor a Baalath, sef Palmyra a Baalbec: yr adeiliau hyn, ac eraill nas cawn eu heuwi yn bresenol, oeddent weithiau clodfawr a gyflawnwyd yn yspaid teyrnasiad heddychol Solomon. Ni chymmerodd un rhyfel le dan ei deyrnasiad ef oddieithr un er dwyn dan ei iau weddillion y Canaaneaid, a'u gosod dan deyrnged iddo ef. Yr oedd Solomon yn rhagori mewn doethineb ar bawb a fuont o'i flaen ef; ond yn ei henaint efe a gymmerodd lawer o wragedd a gordderchwragedd o blith y cenhedloedd eilunaddolgar a'i cylchynent, y rhai hyn a lygrasant ei galon; yr Arglwydd, gan hyny, a fynegodd trwy y prophwyd Abija y rhanai y deyrnas ar ol marwolaeth Solomon, ac y rhoddai ddeg llwyth i Jeroboam. Fel cosp am ei flys anghyfreithlon at y rhyw fenywaidd a'i eilunaddoliaeth, cyfododd gwrthwynebwyr yn ei erbyn; a chafodd wybod y byddai i fwy cospedigaeth ddisgyn ar Israel yn amser ei fab, ac mai ei ymddygiad drwg ef ei hun oedd yr achos cynhyrfiol o hynny. Ni a obeithiwn iddo ef cyn ei farwolaeth edifarhau am ei ddrygioni, er nad oes un cofnodiad o hynny yn y Beibl; pa fodd bynnag am hyn, mae yn sicr ei fod gwedi gadael ar ei ol brofion o ddoethineb ac addysgiadau moesol gwerthfawr yn ei Ddiarebion ag ydynt yn ffynnonellau o ddysgeidiaeth ddefnyddiol i bawb a'u darllenant, ac a drefnant eu bucheddau wrthynt. Gwedi teyrnasu am ddeugain mlynedd, efe a fu farw, a chydag ef diflannodd gogoniant ac awdurdod Uunbenaeth yr Hebreaid.

Rehoboam, mab Solomon, a ddechreuodd deyrnasu ar yr Israeliaid yn y flwyddyn 975 cyn Crist. Wedi iddo ballu ysgafnhau yr iau ag oedd ei dad wedi osod ar ei ddeiliaid, deg llwyth a wrthodasant ufuddhau iddo, ac a ganlynasant Jeroboam, megis y rhagfynegasai y prophwyd. Llwythi Judah a Benjamin yn unig a barhasant yn ffyddlon i Rehoboam; fel hyn torrwyd yr undeb cenhedlaethol, ac ni ddarfu i deyrnas yr Hebreaid byth wedi'n adenill ei mawredd blaenorol; o hyn allan Juda ac Israel oeddent deyrnasoedd gwahanol. Er i Rehoboam ar y cyntaf amcanu myned i ryfel, a gorfodi, os gallasai, y llwythi gwrthryfelgar i ufuddhau iddo; gwedi meddwl yn ddifrifol ar y pwnc, tybiodd mai gwell oedd iddo i ymdrechu diogelu y dosparth oedd ganddo, rhag y buasai trwy ryfela yn colli'r cwbl. Teyrnas y deg llwyth a lywyddid gan frenhinoedd eilunaddolgar a drygionus; rhyfeloedd a chynnenau, bradwriaeth a mwrddriadau, ydynt yn cofnodi eu hanesion creulon a dychrynllyd. Jeroboam, fab Nebat, o lwyth Ephraim, ydoedd eu brenhin cyntaf; a dywedir yn bennodol am dano ef yn y Beibl iddo "*beri i Israel bechu*." Mewn trefn i attal ei ddeiliaid i fyned i Jerusalem i aberthu, rhag y buasai y lle hwnw drachefn yn dyfod yn ganolbwnc o

undeb cenhedlaethol, efe a osododd i fyny ddau *lo aur*, un yn Bethel, ac un arall yn Dan, i'r bobl i'w haddoli. Beth bynnag oedd ei amcan a'i efelychiad—pa un ai gosod i fyny ryw wrthddrych ag oedd mewn rhan yn debyg i'r cerubiaid, neu ynte efelychu duwiau yr Aifft yr oedd—efe a droseddodd y gyfraith, a'r canlyniad fu i'r holl deulu gael eu torri ymaith. Mewn brwydr yn erbyn Abijah, brenhin Juda, cafodd Jeroboam ei hollol orchfygu, ac a gollodd bum can mil o'i filwyr; llethodd hyn ei feddwl yn gymmaint fel nas darfu iddo byth gwedi'n ail-feddiannu ei wroldeb. Canlynwyd ef gan Nadab, ei fab, yr hwn o hono yntau a ganlynwyd gan Baasha, Elah, a Zimri. Drygioni y brenhinoedd hyn yw y peth hynotaf yn eu teyrnasiad. Ni fwynhaodd Zimri y goron ond saith diwrnod. Pan warchaewyd gan Omri ddinas hardd Tirza, yn mha un yr oedd ef ar y pryd, efe a losgodd ei hun i farwolaeth yn ei balas. Yna Omri a gymerodd feddiant o'r orsedd; efe a adeiladodd Samaria, ac a'i gwnaeth yn breswylfod frenhinol, a hi o hynny allan oedd prif-ddinas y deyrnas, yr hon a ymgystadlai yn hir â Jerusalem.

Nid oedd gwrthgiliad y deg llwyth a drygioni eu brenhinoedd gwedi cyrhaedd eu eithafion hyd nes i Abab, fab Omri, esgyn i'r orsedd, yn y flwydd-yn 919 cyn Crist. Priododd y tywysog hwn â Jezebel, merch greulon brenhin Sidon. Trwy ei dylanwad hi dygwyd i mewn addoliad Sidonaidd Baal, sef yr Haul; adeiladwyd a chysegrwyd temlau iddo; a bu yr eilunaddoliaeth yma yn rhwystr ac yn ddinystr mawr i'r wir grefydd. Gosodwyd y prophwydi i farwolaeth, ond cant yn unig, y rhai a ymguddiasant mewn ogof. Yr oedd y prophwydi yn llefaru yn erbyn drygioni Ahab a Jezebel, hyd nes o'r diwedd i Elias gymmeryd y pwnc i fyny a gorchfygu creulonder y brenhin a'i frenhines waedlyd. Buont eill dau feirw yn druenus, trwy i Dduw ddial arnynt waed Naboth yr hwn a laddasent am wrthod gwerthu iddynt hwy etifeddiaeth a gawsai ar ol ei dad. Ahab a laddwyd mewn brwydr fel y rhagfynegasid gan Micea y prophwyd; Jezebel a daflwyd o ffenestr trwy orchymyn Jehu, ac a fu farw yn unol â phrophwydoliaeth Elias.

Canlynwyd Ahab ar yr orsedd gan Ahaziah, Jehoram, Jehu, a Jehoahaz; darfu i'r brenhinoedd hyn i glywed a gweled, yn ddideimlad iawn, wyrthiau Elias ac Elizeus, y rhai a ddefnyddiodd Duw fel offerynau i ddwyn yr Israeliaid i edifeirwch. Afreidiol yw gwneud sylw o'u teyrnasiad bob un ar wahan. Am Jehu gellir sylwi mai cadpen ydoedd ef dan Jehoram; eneiniwyd ef yn frenhin gan y prophwyd Eliseus; ac efe a fu, er mai dyn annuwiol ydoedd, yn offeryn yn llaw yr Arglwydd i ddwyn cospedigaeth ar ei gydoesoion annuwiol. Efe a laddodd Jehoram a deng mab a thriugain Ahab; ac wedi iddo ladd holl offeiriaid Baal, efe a ddinystriodd en delwau a thy eu duw hwynt. Mewn perthynas i Jehoash, gellir sylwi ei fod ef yn llwyddiannus fel rhyfelwr; efe a orchfygodd Benhadad, brenin Syria, mewn tair brwydr. Mewn rhyfel yn erbyn Amaziah, brenin Judah, efe a gymmerodd y brenin yn garcharor, ac a ddrylliodd fur Jerusalem, ac a yspeiliodd y deml a phalas y brenin, ac a ddygodd ymaith yr anrhaith i Samaria. W. D.

(I'w barhau.)

Dywedodd un philosophydd "fod y dyn heb arian yn dylawd, ond fod y dyn heb ddim ond arian lawer tlottach."

Fel y mae pob llwchyn o aur yn werthfawr, felly hefyd y mae pob munud o amser.

Dywed immi fath ddynion yw dy gyfeillion, dywedaf finau fath ddyn wyt tithau.

Eglwysiaeth.

CYWIR DDARLLENIAD 1 Tim. iii., 16.

Llythyrau y Parchn. R. G. Jones ac O. Evans.

Gan nad yw llythyrau Mr. Jones wedi ymddangos yn yr *Ymofynydd*, tybiaf mai tegwch â Mr. Jones a darllenwyr yr *Ymofynydd* yw cyhoeddi ei lythyrau yn llawn: sef ei lythyr cyntaf ef a'm hatteb inau ar ei ol; yna ei ail ef, i'w ganlyn gan fy atteb inau, &c., nes y terfyner. Dyma fy esgusawd dros geisio gennych chwi, Mr. Golygydd, i gyhoeddi yr hyn sydd wedi ymddangos unwaith mewn *print*. Yn y modd hyn bydd chwarae teg hefyd yn cael ei wneuthur â'r ddadl, ac ni fydd gan Mr. Jones un lle i achwyn ar ein hymddygiad ni tuag atto ef, canad faint o le sydd genyf fi i achwyn ar yr enwad y perthyna ef iddo, neu o leiaf ar Olygydd yr *Annibynwr*, am ei ymddygiad tuag attaf fi.

O. Evans.

☞ Gwell fuasai genym pe buasai'r ddadl i gael ei gorphen lle y dechreuwyd hi, yn yr *Annibynwr;* trwy fod llythyrau Mr. Evans mewn attebiad i eiddo Mr. Jones i ymddangos yn y cyhoeddiad hwnw. Ond gan na chaniattawyd cymaint â hyny; a chan fod Mr. Evans yn appelio attom, am roddi chwareu teg i'r naill blaid fel y llall, trwy gyhoeddi llythyrau y ddwy ochr yn gyflawn, nis gallwn lai na chydsynio â'i gais; serch y gwyddom y bydd hyny, am ryw dymmor, i gyfyngu yn fawr ar ein gofod, ac o bosibl i gau allan bethau a fyddent yn fwy dyddorol os nid yn fwy adeiladol i lawer rhai. Llawer ereill, ond odid, a gânt eu mawr foddloni yn y cyfle a roddir iddynt i edrych ar y ddwy ochr, ac i ffurfio barn deg ar y pwnc. Dan yr amgylchiad nid oes genym ond appelio at hynawsedd ein darllenwyr yn gyffredinol, gan hyderu y bydd iddynt gyd-ddwyn â ni. Pan ddelo'r amser priodol, bydd lle a groesaw, yn yr *Ymofynydd*, i sylwadau a welo Mr. Jones yn gymmwys i wneud yn ychwanegol.—Gol.

Llythyr I. *Mr. Jones.—Annibynwr Mai* 1858

Nid oes genyf un gwrthwynebiad i Mr. Evans, Cefncoedycymer, gael mwynhau yr holl fantais a ddeillia oddiwrth ei atebiad i'm rheswm dwybig, fel y geilw ef. Ond addefaf nad wyf yn gweled fawr grym yn ei resymau ef. Nis gallaf weled priodoldeb na phosiblrwydd ei gynllun tybiedig ef i ddysgu pregethwyr. Nis gallaf gredu y medr Mr. E. wneyd yr un chwareu teg â'r rhesymau dros Dduwdod Crist ag a wnai â'r rhai a ymddangosai iddo ef yn erbyn hyny; os nad yw cyfansoddiad ei feddwl yn wahanol i'r eiddo dynion eraill. Y rheol yw, fod credo dyn yn dylanwadu ar ei ddull o ymresymu; byddai eithriad yn beth newydd dan haul. Nid wyf yn gweled angen am anffaeledigrwydd er awdurdodi dyn i ddyweyd ei farn wrth ddyn ieuanc fyddo yn parotoi i'r weinidogaeth, mwy nag sydd i ddyweyd ei farn wrth gynulleidfa y byddys yn pregethu iddi, yr hyn beth a wna Mr. E. mor hyf a neb. Hwyrach y medr efe ddangos pa le mae y gwahaniaeth.

A fydd Mr. Evans yn foddlon ymddiried bywyd Sosiniaeth i'r rhesymau a rydd y Parch. L. Edwards, D.D., o'r Bala, drosti (os yw yn gwneyd hyny) ger bron y myfyrwyr dan ei ofal? Credwyf na fedr Dr. Edwards ddadlu mor zelog ac argyhoeddiadol yn erbyn, a thros Dduwdod Crist, a gwahanol wireddau eraill a gredir ganddo yn ddiamheuol. Os nad yw cynllun Mr. E. yn rhagdybied hyn, nid wyf yn ei ddeall.

Pe gwnai Mr. E. ddarllen y Testament Newydd mor ddiragfarn ag y proffesa efe y gwnai ei ddysgu i eraill, a phwyso yn deg y pethau a ddywedir yno, heb ymgynghori â Griesbach, Priestley, Belsham, na neb, byddai y ddadl rhyngom ar ben.

Drwg genyf fod y lle mor brin mewn un rhifyn o'r *Annibynwr*, ond gellir gosod cryn lawer mewn rhifynau olynol am saith mlynedd. Bydd Mr. E. erbyn hyn, os bydd wn byw, yn gallu dyweyd ei feddwl heb wylltio, a dyweyd fy mod i yn ddiofal am y gwir. Rhesymau, ac nid haeriadau, brofant fod dyn yn cyfeiliorni. Yr wyf yn methu gweled am ba beth y buasem yn dadlu pe buaswn heb nodi fel pwnc yr ymchwiliad, Pa un a yw Crist yn Dduw ai peidio? Er y gwn fod naw o bob deg o grefyddwyr Cymru o'r un golygiadau a mi ar y pwnc, nid oes ynof yr awydd leiaf i gynhyrfu yr *Odium Theologicum* yn ei erbyn ef, er nad yw ef yn hollol rydd oddiwrth geisio cynhyrfu yr *Odium Criticum* yn fy erbyn i, trwy fy nghyhuddo, bron bob yn ail frawddeg, o annghyduno â Griesbach. Ond gwyr pawb sydd yn talu y radd leiaf o sylw i feirniadaeth Fiblaidd ddiweddar, nad oes fawr o bwys i'w roddi ar farn y dyn mawr hwnw *a fu enwog gynt*. Ac os bydd rhyw un yn teimlo tuedd i addoli Griesbach, gwellheir ef o'i afiechyd yn fuan wrth ymgynghori â Matthaei, Nolan, Lawrence,

Hug, Schalz, a Norton. Gwnaeth Griesbach lawer yn ei oes tuag at agor y drws i faesydd beirniadaeth, ond ni wnaeth ond prin ddechreu medi y ffrwythau.

Dywed Dr. Wardlaw mai hen arfer y Sosiniaid yw ceisio maeddu eu gwrthwynebwyr drwy gyfeirio at Griesbach, fel pe na buasai yn bosibl i neb wybod dim am yr athrawiaeth apostolaidd heb fod yn gyfarwydd â Griesbach, neu, fel pe buasai cyfansoddiad y Testament Newydd wedi ei gyfnewid ganddo ar y pwnc yma, fel pe buasai yr ysgrythyrau a deddfau ysgrythyrol wedi eu cuddio mewn caddug, nes i Dduw ddyweyd, "Bydded Griesbach, a llewyrched goleuni." Ymddengys y duedd yma i addoli Griesbach yn gryf iawn ynddynt eto, er nad yw yn gwneyd fawr o'u plaid, oblegid dywed ef ei hun na welodd angen am newid ond tri o fanau lle mae cyfeiriad at y pwnc, ac ni olygai fod hyny yn milwrio dim yn erbyn yr athrawiaeth. Dywed, "Yr wyf yn galw Duw yn dyst, nad wyf yn ameu gwirionedd yr athrawiaeth yn y mesur lleiaf. Ac yn wir mae yr adnodau a brofant briodol Dduwdod Crist mor aml yn y Bibl, ac mor eglur, fel yr wyf fi yn methu dirnad pa fodd y dichon neb sydd yn credu dwyfol awdurdod yr Ysgrythyrau, ac yn dewis rheol deg o esbonio, eu gwadu." Gallaswn roddi y dernyn uchod yn Lladin, ond meddyliaf y bydd cyfieithiad i'r Gymraeg yn fwy derbyniol gan y rhan fwyaf o'r darllenwyr, er fod ymddygiad Mr. E. yn dangos ei fod yn barnu y medrant lyncu Lladin yn dameidiau pur fras.

Dechreuaf eto ar *o*, *os*, a *Theos*, (meddyliaf mai gwell i'r geiriau Groeg fod mewn llythyrenau Italaidd er mwyn y cyhoedd,) i gael gweled beth yw y prawfiadau dros y naill a'r llall. Cymeraf bwyll i chwilio y pwnc, gan obeithio y bydd Mr. Gol. a'r cyhoedd yn amyneddgar.

O. Dim ond un llawysgrif drosto. Yma, wrth fy nghynghori i beidio bradychu fy hun am y llawysgrif hon, mae Mr. E. wedi bradychu ei hun o fyrbwylldra neu anwybodaeth mawr. Dywed. "*o*, yr hyn, yw darlleniad llawysgrif Caergrawnt, neu Codex Bezœ." Pwy ddywedodd hyny wrthych, Mr. E.? Nis gall Codex Bezœ ddarllen un o'r tri, gan na chynwys ond y pedair Efengyl a'r Actau. Ni fuasai ryfedd i mi gamsynied wrth ymdrin â llawer, pan na fedr Mr. E. roddi cyfrif am un, a hono yr unig un sydd o'i blaid yn ol ei addefiad ei hun. Nid yw hyn yn profi fod gwybodaeth Mr. E. mewn beirniadaeth Ysgrythyrol yn eang iawn, a gwaeth fyth pan gofiwn fod Mr. E. wedi bod yn ysgrifenu ar yr adnod hon yn 1851 o'r blaen. Yn awr, y mae Griesbach ac eraill wedi dwyn yn mlaen lawysgrif a nodir D dros y darlleniad hwn *o*. Ond Codex Clermont y gelwir hono, ac y mae yn bresenol yn llyfrgell Paris, ac nid yn Cambridge, lle mae Codex Bezœ. Felly dylai Mr. E. fod yn fwy moesgar a gwyliadwrus rhagllaw. Diau y gwel y darllenydd faint, neu yn hytrach, pa mor lleied o bwys sydd i'w roddi ar ei farn ef am gynwysiad hen lawysgrifau pan gamsyniai mor anesgusodol am eu henwau a lleoedd eu preswylfod.

Mae Griesbach ac eraill wedi dwyn D Clermont yn mlaen fel prawf dros *o*. *Theos* yw y darlleniad presenol, a dywed Beza, Woide, Michaelis, Matthaei, ac eraill, mai *Theos* oedd y gwreiddiol. Dywed Woide fod y llinell yn nghanol yr *o* heb ei chyffwrdd, er fod rhanau eraill yn arwyddo fod llaw ddiweddarach wedi cyffwrdd â hwy. Teimlai Griesbach ei bod mor anhawdd tori lawr ymresymiad Woide, fel o gorfu arno ddyfeisio fod pump o bersonau wedi cyngreirio i lygru y llythyren *o* a'i throi yn *Theos* Creded y neb a fedro. Fel prawf mai *Theos* oedd y darlleniad gwreiddiol, gallwn nodi fod yr ysgrif yma gan Beza pan yn parotoi ar gyfer argraffu ei Destament Groeg. Eto dywed ef fod hen gyfieithiadau yn darllen *qui* a *quod*, fel pe buasai *os* neu *o* yn yr ysgrifau Groeg yn erbyn hyny. Diau na fuasai byth yn dywedyd y fath beth pe buasai *o* yn yr ysgrif o'i flaen.* Dywed Michaelis, "Nis gallaf ameu, er yr oll a ddywed Wetstein, nad *Theos* oedd y darlleniad cyntaf; ac yr wyf yn synu fod Wetstein yn sefyll dros *o*, wrth ystyried fod yr hen *s* eto i'w gweled, fel y dengys *fac simile* Woide." Buasai yn well i Mr. E. roddi rhesymau Griesbach na rhoddi ei farn ef am ei resymau ei hun, a dysgwyl i ni gymeryd hyny fel prawf ei fod yn gywir. Buasai rhesymau Griesbach mor debyg o argyhoeddi y meddwl a gwaith Mr. E. yn dyweyd ei fod wedi "profi yn eglur." Meddyliwyf y gwel pawb fod Griesbach mor bell o brofi hyn, fel y mae eraill wedi profi yn wahanol.

Ond pe addefem mai *o* oedd y darlleniad, y mae y ffaith fod yr ysgrif hon wedi ei gwneyd yn Ngorllewin Ewrop, lle yr oedd dylanwad y cyfieithiad Lladin yn gryf iawn, yn ddigon i beri i ni betruso rhag ei derbyn fel awdurdod, yn enwedig os gwir a ddywed Wetstein, fod y Groeg wedi ei newid yn aml i gydymffurfio á'r cyfieithiad Lladin neu Italaidd. Dywed Prof. Schmidt, o Giesen, yn hanes Beirniadaeth, mai yn y Gorllewin y tarddodd yr *o*, ac mai yr unig awdurdod drosto yw y cyfieithiad Lladin, oblegid bod

* Bu yr ysgrif hon yn meddiant Beza, a meddyliai beirniaid unwaith mai yr ail ran o Godex Beza yddoedd, gan ei bod yn dechreu lle mae hono yn diweddu; ond adnabyddir hwy yn bresenol fel dwy ysgrif wahanol, mewn dau le.

yn anmhosibl dyweyd pa un a ddechreuodd mewn rhyw gopi Groeg, neu ynte a oedd y copi oedd gan y cyfeithydd wedi treulio nes gwneyd yr *s* yn anweledig. Rhaid i Mr. E. ateb y boneddigion uchod cyn y gallo hawlio D. Codex Clermont o'i du.

Y cyfeithiadau. Mae y rhai hyn yn bwysig fel cynorthwyon i ddirnad beth oedd sefyllfa wreiddiol ysgrifau Groeg, eto nis gallant fod yn ddigon o awdurdod yn erbyn yr ysgrifau eu hunain, oblegid

1. Gall y cyfeithydd fod wedi camsynied darlleniad neu ystyr y copi o'i flaen.

2. Yr oedd copïau o'r cyfeithiad yr un mor agored i gael eu llygru a'r copïau Groeg gan ail ysgrifwyr. Dywedir fod y cyfeithiadau canlynol dros *o*,—yr Italaidd, y Vulgate, Peshito Syriaeg, Ethiopaeg Armenaidd Coptaeg Sahidaidd, a'r Arabaidd gan Erpenius.

Dechreuwn gyda'r Italaidd a'r Vulgate. Tebyg fod amryw gyfeithiadau Lladin yn bodoli cyn amser Jerome, ond yr oeddent yn hynod lygredig. Ymgymerodd Jerome a'r gorchwyl o gywiro un o honynt yn ol y Groeg. Dewisodd yr un Italaidd, ond ni wyddys pa un a aeth ef yn mhellach na'r pedair efengyl. Gadawodd lawer o bethau fel yr oeddent rhag rhoddi tramgwydd; felly ni ellir penderfynu beth oedd Groeg y copi a ddefnyddiai; ac nid oes ond ychydig iawn o bwys i'w roddi ar waith yr oedd pob un yn chwanegu ato, neu dynu oddiwrtho, yn ol ei farn ei hun bymtheg cant o flynyddoedd yn ol. Faint o gyfnewidiadau raid fod ynddo cyn hyn?

Dywed y dysgedig Porson, Pe cydunai yr holl ysgrifau i dderbyn y darlleniad, buaswn yn ei ystyried allan o le i dderbyn unrhyw gyfeithiad o flaen tystiolaeth unol yr ysgrifau Groeg. Llawer llai y gallwn ymddiried mewn cyfeithiad sydd wrth gael ei ail ysgrifo gynifer o weithiau wedi ei lygru yn fwy nag un. Dywed Bengal fod y cyfeithiad Lladin yn gwyro yn aml oddiwrth ddarlleniad cywir y Groeg.

Syriaeg. Y mae Mr. E. yn gosod pwys mawr ar hwn, ac yn cyfeirio at yr *Ymofynydd*. Gwelais y rhifyn a gynwys ei sylwadau ar yr adnod hon, yr unig un a welais o'r cyhoeddiad erioed. Daeth i'm llaw tua mis wedi i mi anfon fy llythyr i'r Swyddfa. Yr wyf yn methu gweled fawr yn hwnw. Deallwyf fod Mr. E. wedi ysgrifenu amryw lythyrau o'r blaen,—os deuant i'm llaw byddant yn debyg o gael eu nithio ryw dro.

Nid yw y cyfeithiad hwn yn benderfynol dros *o*, nag yn brawf nad oedd *Theos* yn y copi a ddefnyddiai y cyfeithiwr. Nid yw dros *o*, gan y gellir ei gyfeithu, "Ddarfod iddo *(that he)* ymddangos yn y cnawd," a dyna fel y deallid ef gan Erpenius. Defnyddir y llythyren *d* yn y Syriaeg fel cysylltydd a rhagenw.

Eto nid yw yn brawf yn erbyn *Theos*, gan fod y cyfeithydd wedi gadael *Theos* allan yn 2 Cor. vi. 16, lle nad oes amheuaeth yn ei gylch. Y Groeg yw, "Megys y dywedodd Duw, Myfi a breswyliaf yn eu plith" Dywed y Syriaeg, "Megys y dywedodd *efe* y gwnaf breswylio yn eu plith." Yr oedd *Aloho* (Duw) yn y frawddeg o'r blaen, am hyny nid yw y cyfeithydd yn ei enwi yma, er ei fod yn y Groeg. Felly yma, yr oedd Duw yn y frawddeg, "Eglwys y Duw byw;" yn ol ei arfer gadawodd y cyfeithydd *Duw* allan o'r frawddeg hon, gan osod *d* yn lle *Aloho*. Barna Henderson mai cysylltydd yw *d* yma yn dangos mai *Aloho* yw yr enwedigydd i'r ferf *ymddangosodd*; ac fod y cyfeithydd yn gosod (colofn a sylfaen y gwirionedd, a mawr ddirgelwch duwioldeb) mewn cronfachau. Mae yn debyg fod yr Ethiopaeg yr un fath, mae y blaenddodyn *Ze* yn gysylltydd a rhagenw, a chymerir rhyddid mawr yn y cyfeithiad hwnw wrth ymdrin â'r enwau dwyfol; weithiau cyfnewidir y naill am y llall, ac weithiau gadewir hwy allan o gwbl. Nis gellir penderfynu dim oddiwrth y Coptaeg a'r Sahidaeg; canys er mai y rhagenw perthynasol a ddefnyddir, eto mae y gair a ddefnyddir *musterion* yn y rhyw wrywaidd, am hyny nis gellir penderfynu pa un ai ato ef, neu at Dduw y cyfeiria.

Nid yw y rhagenw perthynasol yn cyfnewid rhywogaethau yn yr iaith Armenaidd, am hyny nis gall fod dros *o* mwy nag *os*. Ond dywed Dr. Lawrence mai *Theos* yw y darlleniad cywir, ar awdurdod argraffiad Uscan, 1666; a dywed Henderson mai dyma ddarlleniad yr argraffiadau yn 1698, ac 1805. Cyfeithiad Arabaeg Erpenius yw, "Ac mewn gwirionedd mawr yw y dirgelwch hwn o gyfiawnder, sef iddo gael ei ddatguddio yn y corff" Mae yn amlwg, medd Dr. Henderson, fod y rhagenw yn cyfeirio at *Theos* yn ddealledig. Dywed yr un gwr dysgedig nad oes o'r hen gyfeithiadau yn benderfynol dros *o* oddigerth y Lladin, a bod yn hawdd cyfrif am hyny heb dybied fod *o* mewn llawysgrif wreiddiol.

Nis gwn ar bwy dir mae Mr. E. yn gosod y cyfeithiad Syriaeg mor hen, gan nad Ephraem yw y cyntaf sydd yn son am dano yn niwedd y bedwaredd ganrif.

Gallesid dysgwyl i'r tadau Lladinaidd arfer *quod* ar ol y Vulgate, ond y mae Jerome a Theodore Mopsusetia yn arfer *qui*, ac y mae Epiphanius yn dyweyd, "Duw a ymddangosodd yn y cnawd." Nid oes ond dau argraffiad gwael dros *o*, yr eiddo Harwood a Boisauade.

Rhaid i mi adael *os* a *Theos* y tro hwn,

ond yr wyf yn barod eto i daflu *os* dros y bwrdd, a mynu ei le priodol i *Theos*. Yn lle rhoddi haeriadau disail, caiff Mr. E. weled fy mod ar y graig, pan yn dyweyd nad oes ond ychydig ysgrifau dibwys dros *os*, tra mae dros 150, a chant gyda hyny, o ysgrifau dros *Theos*.

Bydded y darllenwyr yn amyneddgar, cant gyfle i farnu pwy sydd i ddwyn ei benyd. Diffyg lle yn yr *Annibynwr*, ac nid dim o'm tu i, sydd yn peri i mi aros. Gobeithiaf y bydd Mr. E. yn fwy boneddigaidd ac agos i'w bwnc yn ei ail lythyr nag y bu y tro hwn.

RHYS GWESYN JONES.

Llythyr I. *Mr. Evans.*

(At Olygydd yr *Annibynwr*.)

MR. GOL.,—Cyn dechreu y mae genyf air attoch chwi; sef, mai nid teg oedd i chwi adael allan y drydedd ran o'm hysgrif ddiweddaf, gan nad oeddwn, i'm tyb i, yn myned gam ymhellach oddiwrth y pwngc nag oedd Mr. Jones wedi myned o'm blaen i; yr hwn a ddywed yn bresenol mai duwdod Crist yw pwngc y ddadl, ac felly nid oeddwn oll allan o hono. Gan mai efe a wnaeth yr ymosodiad, nid oedd genyf ond ei erlyn lle bynag yr âi. Ymhellach, er heb un amcan i wneuthur hyny, gwnaethoch fi i addaw i'r cyhoedd yr hyn na chai byth ei gyflawni, pan ddywedais, "*Ond rhagor ar hyn eto.*" Rhagor ni ddaeth, a rhagor byth ni ddaw 'chwaith oddieithr i chwi osod i mewn yr hyn a adawsoch allan.(*a*) Yn awr at atteb Mr. J.

"*Audi alteram partem,*" clywch yr ochr arall. Nid yw Mr. J. yn gweled nemawr yn yr hyn a ddywedais i ar ei reswm dwybig ef, er ar yr un pryd yn rhoddi i fynu yr ymdrech: na, nid llawer a wel Mr. J. yn yr hyn a ddywed neb ond ei hunan, yn enwedig os croes i'w olygiadau blaenorol ef. Er rhoddi i fynu, nis gall wneuthur hynny heb ergyd wrth fyned heibio. Fy atteb yn fyr i'r cwbl a ddywedodd mewn perthynas i'r rheswm dwybig yw hyn, sef fod gwahaniaeth mawr rhwng dywedyd nad oes neb, sydd a chyfansoddiad ei feddwl fel dynion eraill, yn berffaith rydd oddiwrth ragfarn, a dywedyd mai dyledswydd dyn yw ymddwyn yn rhagfarnllyd, fel y gwnaeth Mr. J. pan ddywedodd na ddylwn fod yn athraw pregethwyr heb ddylanwadu'n dduwinyddol arnynt.(*b*) Ymhellach, pe darllenai Mr. J. yn bwyllog yr hyn a ddywedais, odid na welai nad oes achos i mi wrth gyfansoddiad meddwl gwahanol i ereill cyn ymddwyn i fynu i'r hyn a broffesais; sef y buaswn yn ei hystyried yn ddyledswydd arnaf i ymddwyn yn y modd y dywedais *hyd ag y medrwn.* Gall pob un wneuthur felly, sef gwneyd a allo, 'does bossibl, heb wneyd ei hun yn agored i wawd am ddywedyd y gwnai felly. Y mae Mr. J. yn dywedyd nad oes ynddo yr awydd lleiaf i gynhyrfu'r *odium theologicum* (tamaid o Ladin!) yn fy erbyn. Pa fodd y cydsaif hyn â'r ymadroddion, "Ymddiried bywyd Sosiniaeth," "hen arfer y Sosiniaid," &c., nis gwn; dichon y gwyr ef. Os cyfodi'r *odium criticum* yn ei erbyn yw gofyn ganddo brofi ei haeriadau neu addef ei gamsyniadau, yr wyf yn euog, ac euog a fyddaf hefyd cyhyd ag y byddo genyf y parch lleiaf i'r gwirionedd. Beth fyddai y canlyniad o beidio ymgynghori â Griesbach, Priestley a Belsham, nis gwn; ond hyn a allaf ddyweyd, nad wyf wedi eu defnyddio erioed ond fel cynorthwyon yn fy ymchwiliad am y gwirionedd; a gallaf sicrhau Mr. J., er nad oes rhyw lawer o lyfrau yn fy meddiant, mai nid y tri gwr dysgedig uchod yn unig yr wyf yn ymgynghori â hwynt. Os yw Priestley yn fy meddiant, y mae Horsley hefyd; os yw Yates, y mae Wardlaw hefyd; y mae Calvin a Socinus: Belsham ac Adam Clarke; Kenrick a Whitby yn fy llyfrgell. Yn fyr y mae mwy o waith trin-dodiaid nag undodiaid o lawer yn fy meddiant. A all Mr. Jones ddywedyd

(*a*) Cofied y darllenydd mai i olygydd yr *Annibynwr* y mae y sylw uchod yn perthyn, ac nid i olygydd yr *Ymofynydd.*

(*b*) Yn yr *Annibynwr* am Ionawr, 1858, tud. 14, y mae Mr. J. yn dywedyd fel hyn, "Mae Mr. Evans yn athraw i lawer o ddynion ieuainc, ac amryw fyfyrwyr cddiwrtho ef yn cael eu derbyn i Goleg Aberhonddu. Gan fod yr athraw yn debyg o ddylanwadu yn dduwinyddol yn gystal a llenyddol ar y rhai a fyddant dan ei ofal, neu ynte, ni ddylai fod yn athraw pregethwyr, nid oes achos i Mr. Evans synu fod yr Annibynwyr yn cymeryd sylw o'i olygiadau ef yn fwy na phob Undodwr."

cymaint a hyn mewn perthynas i lyfrau *undodaidd?*

Yn awr at beth mwy pwysig o lawer. Am Griesbach dywed Mr. J., "Ond gwyr pawb sydd yn talu y radd leiaf o sylw i feirniadaeth Fiblaidd ddiweddar nad oes fawr o bwys i'w roddi ar farn y dyn mawr hwnw *a fu enwog gynt.*" Hym! Gwynt i gyd. Ond beth all nithiwr wneyd lawer heb wynt? Yna y mae yn fy nghyfeirio at chwech o foneddigion dysgedig, diweddar hefyd oll, bid sier, i gael gwellhad o'm hafiechyd; sef Matthaei, Nolan, Lawrence, Hug, Schulz (Scholz?), a Norton. Ni a alwn heibio i'r chwech bob yn un ac un, i gael gweled a ddylai Griesbach gael ei newid am un o'r rhai hyn, nac am y chwech gyda'u gilydd. Cofied y darllenydd nad wyf yn meddwl fod Griesbach yn anffaeledig, onide ni fuaswn byth yn gwahaniaethu oddiwrtho yng nghylch cywir ddarlleniad yr adnod mewn dadl. Darlleniad Griesbach yw *'ὃς*, yr hwn; fy eiddo inau yw *'ὁ*, yr hyn. Gan gan nad oes ond dau o'r chwech wedi dwyn Testament Groeg allan o'r wasg, sef Matthaei a Scholz, iddynt *hwy* y talaf y sylw mwyaf; ac yr wyf yn meddwl y gallaf ddangos nad oes un o'r ddau Desment yn addas i fod yn awdurdod ar un pwnc o bwys, chwaithach llanw lle Griesbach. Awn at y cyntaf yn y rhestr, sef Matthaei. Cyhoeddodd y gwr dysgedig hwn ei Destament Groeg ar wahanol amserau o'r fl. 1782 i 1786; ac felly, fel beirniad diweddar nis gall gael ei dderbyn oll, oherwydd dygodd ei Destament allan o'r wasg o flaen ail-argraffiad Griesbach a ymddangosodd yn 1796 a 1806; ac y mae Griesbach yn aml yn cyfeirio at lawysgrifau Matthaei yn ei *notes*, megis Mt. 1, 2, 3, &c., yr hyn sydd ar unwaith yn dangos fod Griesbach wedi cyhoeddi ei Destament ar ol Matthaei. Felly, ar dir Mr. Jones ei hun, amgenach raid fod Testament Griesbach, gan ei fod yn ddiweddarach. Ond beth am Matthaei? Dywed Michaelis am dano—awdurdod a ddifynir gyda chymeradwyaeth gan Mr. Jones ei hun:—

"Y mae ef yn desgrifio llawysgrifau hen y dosparth dwyreiniol, y rhai y mae ereill yn eu derchafu, fel yn anheilwng o sylw: y mae yn eu galw yn *scurrilis editio*, cyhoeddiad epaaidd, a braidd y gall siarad am dano heb golli ei dymer. Pwy bynag sydd am ragor o hyspysrwydd ar y mater, ymgynghored â'r *Orient. Bibl.* Vol. xx., No. 296. Yr wyf yn parhau o'r un farn a osodais allan yno, fod Matthaei, pan y dechreuodd ei waith, oes o leiaf ar ol ereill yn yr Allmaen." Marsh's Michaelis, Vol. ii., part I., p. 494.

Dywed Scott Porter ymron yr un peth am Matthaei; gwel ei Text. Crit., p. 258. Dywed Dr. Davidson am dano:—

"I'r dosparth blaenaf y perthyn Matthaei, yr hwn a ddifenwodd y llawysgrifau Alexandriaidd a'u mawrygwyr. 'Poeryn Origen, *Origen's spittle*, oedd eu darlleniadau neilldnol yr hwn y neb a fynai a allai ei lyfu. Llawysgrifau'r domen oeddent, trwy dawch y rhai y collodd Griesbach druan ei olygon.' Yr oedd y fath iaith yn gwarthruddo'r person a ymddarostyngai i'w harfer." Bibl. Crit. 547.

Dywed Norton am dano:—

"Yr oedd Matthaei, yn ol fy marn i, yn amgenach ysgolhaig na Griesbach, gan ei fod yn fwy helaeth ei gydnabyddiaeth â'r Tadau Groeg, a chymeriad eu dyfyniadau o'r Hen Destament. Yr oedd yn ysgolhaig llafurus yn ol dull *y dyddiau gynt*. Ond yr oedd ei dymer yn llidus, a'i ffordd o ddadlu yn arw a gwawdlyd. Yr oedd llawer o chwerwder yn ei ymosodiadau personol ac anfoesgarwch (*horse-play*) yn ei wawdiaith; dygodd y ddau i mewn yn y lle mwyaf anaddas o bob man, ei nodiadau a'i sylwadau yn ei argraphiadau o'r Testament Newydd. Yr oedd yn ddiffygiol mewn barn a gallu i ymresymu; ac, hyd yn oed pan oedd ei resymau o bwys, nid oedd yn ddigon amyneddgar i'w gosod hwynt allan yn y fath fodd ag i roddi iddynt eu grym dyledus" Norton's Evidences, Vol. I., p. 172, note A.

Cofied y darllenydd mai un o awdurdodau Mr. J. ei hun yw Norton. Ac wele un o feirniaid diweddar Mr. Jones sydd i'm gwella i o'm hafiechyd wedi ei droi heibio gan feirniaid diweddarach, ac un o honynt yn un o'r chwech a nododd ef ei hun.

Nolan yw'r nesaf.—Dywed Prof. J. Scott Porter fod *theory* Nolan wedi bod unwaith yn boblogaidd iawn yn y wlad hon, ond na siaradir dim am dani yn awr ond yn anfynych iawn, ac yn lled debyg nad oes ganddo nemawr o ganlynwyr. Ychwanega gan ddywedyd,—

"Ar ol ymchwiliad byr o ddyfyniadau ysgrythyrol y Tadau, a darlleniadau y cyfieithiadau dwyreiniol, y mae Mr. Nolan yn dyfod i'r penderfyniad nad oes un cyfarwydd yd diogel a sicr yn bodoli er sefydlu testun pur y Testament Newydd oddieithr y cyf-

feithiad Lladin; a chan fod hwn wedi dyfod i lawr attom ni mewn llawer o wahanol ffurfiau, y rhai y mae efe yn dybied ydynt yn cael eu harddangos gan y Codex Vercellensis, Vulgate Jerom, a'r Codex Brixianus, y mae'n cymeryd y tri hyn fel sylfaen ei ddosparthiad (*classification*), ac yn ystyried pob un o honynt fel yn arddangos adolygiad gwahanol o'r *Greek text.*" Text. Crit., p. 395.

System lled amherffaith, Mr. J., onide? Ond a chymeryd ei bod yn ddigonol, beth wed'yn? Yna y mae y darlleniad 'ô, yr hyn, ar ei draed, a holl ymdrech Mr. J. yn ofer i gyd. A allasai Mr. J. fod yn gwybod rhywbeth am y dynion hyn, y beirniaid *diweddar* yma, heblaw eu henwau? Beth! Y mae pawb yn addef, ond un, yr hwn a gaiff ran o'n sylw heb fod yn faith, mai *quod*, yr hyn, yw darlleniad y cyfieithiad Lladin, ac etto y mae Mr. J. yn fy nghyfeirio at Nolan! Diolch i Mr. J., er mai nid o garedigrwydd y gwnaeth y gymwynas. Y mae Dr. Davidson ar ol sylwi ar *system* Nolan yn swmio i fynu fel hyn:—

"Oddiwrth hyn ymddengys fod y pwys y mae Nolan yn roddi i'r Cod. Brixianus, a'i debygolrwydd i adolygiad (*recension*) Constantinople yn ymddangos yn y ffurf mwyaf twyllodrus yn ei *system*. Nis gall y *system* ei hun gan hyny ddal ei thir."

Felly wele Undodwr a Thrindodwr yn cyduno i wrthod *system* Nolan, ail feirniad Mr. Jones.

Lawrence.—Pan ddarllenais *Evidences* Norton gyntaf, er ys dros ddeng mlynedd yn ol, gwelais yn ei *note* hirfaith ar Griesbach gyfeiriad at Lawrence; anfonais am dano yn ddioed, ond yr atteb a gefais oedd, nad oedd mewn *print;* anfonais i lawer o fanau lle gwerthid llyfrau ail-law, ond yn ofer y cwbl, ac felly yr wyf heb y llyfr, na dim llawer o hyspysiad yn ei gylch. Felly rhaid i mi fod yn ddistaw. Efallai y gwelai Mr. J. fod yn dda yn y cyfryw amgylchiad, roddi darlleniad y gwr dysgedig hwn o'r testun mewn dadl, a'i *resymau* drosto yn ei lythyr nesaf.

Hug.—Y mae Griesbach yn ei *Meletemata* yn dangos fod ei gynllun ef a Hug yn cytuno ymhob peth hanfodol; a dywed Scott Porter fod Griesbach a Hug wedi egluro ac agweddu rhai rhanau o'u gwahanol gynlluniau i'r fath raddau fel ag i adael ychydig mwy na gwahaniaeth mewn enw rhyngddynt. Felly wele fi yn ol gyda Griesbach eto trwy Hug. Dywed Norton, un o feirniaid Mr. J. cofier, fel hyn:—

"Ar y pwngc hwn," sef mai i Lucian yr ydym yn ddyledus am y Byzantine, "y mae Hug yn taenu yn eu hyd ei olygiadau disail a blin. Y mae yr un dyb yn cael ei choleddu hefyd gan Eichorn." Evid., p. 128, Note A.

Ar ol adolygiad manwl o *system* Hug, y mae Dr. Davidson yn diweddu:—

"Yn y modd yma nid oes gan *system* y beirniad enwog hwn ddim digon o awdurdod i'w chymeradwyo i dderbyniad cyffredin. Y mae'n gorphwys ar seiliau gwanaidd, y rhai nid yw hanesyddiaeth yn gefnogi."

Paham y gwnai Mr. Jones fy nghyfarwyddo at feirniaid mor groes a hyn i'w gilydd? A oedd yn tybied mai ffol parod oeddwn, neu a oedd am wneyd ffol cyhoeddus o hono ei hun?!

Schulz.—Ni wn i ddim rhagor am y dyn hwn na hyn, iddo gymeryd arno gyhoeddi argraffiad newydd o *Dest. Groeg Griesbach!!* Ymddangosodd y gyfrol I. yn 1827, ond ni chlywais i'r ail ymddangos eto. A thyma'r meddyg sydd i'm gwella o'm hafiechyd, trwy osod yn fy llaw argraffiad newydd o'r hyn a achosodd fy nghlefyd. Geilw Dr. Davidson y Schulz yma yn ddisgybl Griesbach.—Bibl. Crit., p. 520. Ond efallai mai Scholz a feddyliai Mr. J., ac mai i'r wasg y perthyn y coll hwn. Wel, awn yn awr at

Scholz.—Y neb a ddarlleno hanes cynllun Scholz yng ngwaith Prof. J. Scott Porter nis gall letya meddwl uchel iawn am dano. Ond gan ei fod wedi cyhoeddi Test. Newydd yn y Groeg, awn at hwn; oblegid dyma'r awdurdod, os teilwng o'r enw, i benderfynu darlleniad cywir y testun mewn dadl. Y mae genyf awdurdod lled dda dros ddywedyd fod naw o bob deg o nodiadau Scholz wedi eu copïo yn fongleraidd o Destament Griesbach. Y mae ynddo esgeulusdod a difaterwch anghredadwy braidd mewn un wrth waith mor bwysig. Felly nis gellir gosod dim ymddiried yn y Testament hwn fel *standard.* Yn wir y mae ei esgeulusdod mor ddigrif weithiau fel braidd y gellir peidio chwerthin, er mor bwysig y pwngc. Tebygaf, clywaf lais o Benybont [o Ferthyr] yn dywedyd "profion, syr, ac nid haeriadau, sydd eisiau." Purion;

wele rai iddo, caiff ragor o lawer os myn. Cyn myned at yr enghreifftiau, gallaf ddywedyd hyn, sef, pan fyddo Griesbach yn gyfeiliornus, y mae yntau yn sicr o fod felly hefyd, a da fuasai'r peth, pe dyna'r cwbl. Enghreifftiau.—1. Matt. iv. 5. Y mae Griesbach yn dywedyd fod B, C, D, I, 33, 47, Mt. 1, rhai argraffiadau o'r Test. Newydd a'r cyfieithiad Sahidaidd, yn darllen *estésen* yn lle *histésin*. Nid yw Scholz yn gwneyd dim sylw o Mt. 1, ac y mae'n sicrhau fod y llawysgrifau uchod ynghyd a Z (Codex rescriptus Dublin) nid yn unig yn darllen *estésen* yn lle *histésin*, ond yn gadael allan *auton* sydd yn canlyn; yr hyn sydd hollol anghywir. Achoswyd y camsyniad gan ei ddiofalwch yn gosod y *double accents* (″), camsyniad sydd yn digwydd mor aml fel nad yw ei Destament yn werth nemawr i'r myfyriwr heb ryw gynorthwy arall gerllaw. 2. 1 Ioan v. 7, lle y gallesid disgwyl y cywirdeb mwyaf ar adnod mor hynod mewn beirniadaeth; nid felly y mae, maddeued y Cymro i mi am ddifynu geiriau Scholz, er mai Lladin ydynt. "Codices Graeci qui epistolas catholicas habent fere omnes; videlicet, A, B, (hiat iv. 3—2 Io. 3) G, H," &c. Y mae Scholz yma yn haeru fod bwlch yn y llawysgrifau A a B, neu o leiaf yn yr olaf, fel nas gellir gwybod beth oedd y darlleniad, yr hyn sydd hollol anghywir. Y ffaith yw hyn, ei fod yn *copio* Griesbach mor esgeulus fel y gadawodd y llythyren C allan o flaen *hiat*. Yn Griesbach y mae'r mater yn sefyll fel hyn, "A B (C hiat a cap. 4. 3 ad Ioann. 3)." Hyny yw, nad yw'r geiriau dan sylw duim yn A, B, fod bwlch yn C, fel nas gellir dywedyd beth oedd ei darlleniad; yr hyn sydd eithaf gwir. 3. Matt. iv. 10, *note b.*; y mae Scholz yn copio o Griesbach y geiriau hyn, "*Codices e quibus interpolatus fuit Lucas.*" Er ei fod yn y geiriau hyn yn dywedyd mai llygriad yn Luc yw'r geiriau y cyfeiria atynt, sef *opisó mou*, er hyny y mae'r geiriau yma, y mae ef yn addef yn llygriad, yn ei destun yn Luc iv. 8, er ei fod yn eu taflu allan o Matt. iv. 10 am mai llygriad ydynt!! Hyn ni wnaeth Griesbach! 4. Yn ei *note* ar 1 Tim. iii. 16, y testun mewn dadl, y mae esgeulusdod lled ddigrif wedi digwydd ar Scholz. Y mae'n copio o Griesbach air a gair yr hyn a ganlyn, er crogi ei hun wrth wneuthur hyny. Yn ei *list* o'r rhai sydd dros y darlleniad *hos*, yr hwn, y mae "Cyrilus Alex. qui saepe quidem habet *Theòs* in operum editionibus, sed perperam, *uti docuimus in Symbolis Criticis.*" Hyny yw y mae ef yn dwyn fel awdurdod dros y darlleniad *hos* Cyril o Alexandria, "yr hwn sydd a'r gair *Theòs* yn aml yn y cyhoeddiadau argraffedig o'i waith, ond yn anghywir, fel y dangosais yn y *Symbolae Criticae.*" Pwy bryd erioed y darfu i Scholz ddangos hyn, na dim arall mwy na hyny, yn y *Symbolae Criticae*? a pha fodd y gallasai, gan mai *Griesbach*, ac *nid* efe, ysgrifenodd y llyfr hwn? Felly, dyma brawf o esgeulusdod lled ddigrif, onide Mr. J.? 5. Y mae Scholz yn bendant mai *hos*, yr hwn, yw darlleniad yr Italic a'r Vulgate yn yr adnod mewn dadl. A all Mr J. ei dynu ef allan o'r ffos hon? Gwyr pawb cyfarwydd â'r mater mai *quod*, yr hyn, yw darlleniad y ddau gyfieithiad hyn. Ac nid anhawdd genyf gredu y cyfaddefa Mr. J. ei hun gymaint a hyn, os nad yw wedi gwneuthur hyny yn barod. A thyma un arall eto o'r beirniaid diweddar sydd i'm gwella i ac ereill sydd yn *parchu*, ond *nid addoli*, Griesbach. Os bydd angen wrth ragor o enghreifftiau, y mae digon wrth law yn Scott Porter a Dr. Davidson. Gwel Scott Porter's Text. Crit. pp. 261—267. Dr. Davidson's Bibl. Crit. pp. 580—584. (Treatise on Biblical Criticism, by Samuel Davidson, D.D. 1850.)

Norton.—Y mae llyfr gwerthfawr Norton ar Dystiolaeth purdeb yr Efangylau yn deilwng o astudrwydd manwl pob beirniad Biblaidd. Pan ddarllenais ei Note A yu ei gyfrol gyntaf o'i waith yr oeddwn o'r farn fod ynddi rai nodiadau da, er nas gallaswn yn fy myw dderbyn y cyfan a ddywedai. Y mae'n cymeryd gafael amhriodol ar y gair *recensiones* a ddefnyddir gan Griesbach, fel un anghymwys gyda golwg ar drefniad y llawysgrifau. Ond nid yw hyn ond dadl am air, yn tarddu oddiar gamddeall amcan Griesbach yn ei arfer. Y mae y ffaith yn aros yr un; oherwydd er nad yw Norton yn foddlon defnyddio'r gair *recensiones*, a'i fod wedi ysgrifenu yn erbyn dosparthiad yn hollol; er hyny y mae ef ei hun yn addef un dosparth, neu deulu, neu yr hyn a wna'r tro yr un cystal, sef y Byzantium; a gallasai weled fod yr un profion dros yr Alexandrine a ddygodd ef

dros y llall. Ond a chaniattau am fynyd fod yn rhaid i mi dderbyn Norton, neu fod mewn perygl o aros yn fy nghlefyd, yna y mae yn rhaid i mi adael y pump meddyg arall a gymeradwyodd Mr. J. i mi, oblegid y mae y rhai hyn dros ryw fath o *glassification*, tra y mae Norton yn erbyn pob math o ddosparthiad. P'un o'r rhai hyn raid i mi ganlyn Mr. J.? Nis gallaf fi na neb arall eu canlyn oll. Beth, attolwg, wedi'r cyfan yw darlleniad Norton o'r adnod mewn dadl? *ho*, yr hyn, yr un peth a minau'n gymwys.(*c*) Paham y dygodd Mr. J. fi at Norton, nag un o'r pump arall 'chwaith? Am, i'm tyb i, na wyddai ddim am danynt rhagor na'u henwau. Felly y mae beirniaid diweddar Mr. J. naill ai'n troi yn ei erbyn fel Norton, neu o ddim gwerth fel beirniaid, fel Matthaei a Scholz; neu yn cyttuno â Griesbach fel Hug; a'r rhan amlaf yn croesi eu gilydd ynghylch *classification*.

Am Destament Groeg Griesbach dywed Scott Porter fel hyn:—

"Y mae'n syndod nad oes ond ychydig o gamsyniadau wedi eu cael allan yn y nodiadau hyn, er mor agored i wallau raid fod y llyfr a gynwys gyfeiriadau at fwy na phump cant o lawysgrifau, pymtheg o gyfieithiadau, a thriugain a thri o'r Tadau; ac y mae y *beirniaid goreu*, heb braidd eithriad, wedi dwyn eu tystiolaeth nid yn unig i'w *degwch*, ond i'w *gywirdeb cyffredinol* ym mharotoad ei destun." Text. Crit. 260. Gwel hefyd Dr. Davidson Bibl. Crit. p. 578, lle y caiff Mr. J. farn Hug ei hun am Griesbach.

Ni fuaswn yn sylwi dim ar yr hyn a ddywed Mr. Jones am Wardlaw, pe y buasai yn siarad ychydig yn llai diystyrllyd am fy ngwaith i yn difynu geiriau y dysgedig a'r clodwiw Dr. John James Griesbach, yn yr iaith yr ysgrifenodd hwynt. "Dywed Dr. Wardlaw," ebe Mr. J., "mai hen arferiad y Sociniaid yw ceisio maeddu eu gwrthwynebwyr trwy gyfeirio at Griesbach," &c. Y mae y dernyn yng ngwaith Dr. Wardlaw o'm blaen yn awr, lle y dywed, "*Till God said, Let Griesbach be, and all was light.*" Yr hyn a gyfieithir gan Mr. J. fel hyn, "Nes i Dduw ddyweyd, Bydded Griesbach, a llewyrched goleuni." Ni sylwaf ddim ar y cyfieithiad, ond dywedaf hyn, na chefais trwy yr ymadrodd un sail i haeriad Mr. J. fod Dr. Wardlaw yn dywedyd mai hen arferiad y Sociniaid, &c. Y mae Dr. Wardlaw yn ddigon chwerw, ond ni ddywedodd felly; ac ni allasai yr arferiad fod yn *hen iawn*, oherwydd nid oedd ail argraffiad Griesbach o'i Destament Groeg ddim allan o'r wasg lawer o flynyddau cyn dechreu y ddadl rhwng Yates a Dr. Wardlaw. Naill ai yr wyf fi yn camddeall Dr. Wardlaw, neu y mae Mr. J. yn gwneyd cam ag ef.

Ychwanega Mr. J., "Ymddengys y dued yma i addoli Griesbach yn gryf iawn eto." Ai yn fy ngwaith i yn gwahaniaethu oddiwrth Griesbach ynghylch cywir ddarlleniad y testun mewn dadl y cafodd Mr. J. hyn allan? Nid gan Whateley y cafodd ei ddysgu i ymresymu fel hyn! Ymhellach, y mae Mr. J. yn difynu geiriau Griesbach i ddangos mai trindodwr oedd y dyn dysgedig hwn. Nid oedd achos wrth hyn iddo ef na Dr. Wardlaw o'i flaen ef, oherwydd nid oes un o'r undodiaid wedi ameu hyn erioed; a buasai yn dra ffol i wneyd hyny, gan fod tystiolaeth gwrthwynebwr yn cael ei hystyried fynychaf, pan fyddo *dros* un, yn gryfach ua thystiolaeth gwyr un ochr. Felly yr oedd Griesbach ar ei lw yn drindodwr, ac er hyny y mae'n gweled y prof-

(*c*) "Ar ol y cyfan a ysgrifenwyd," medd Norton, "ar y testunau hyn, nid oes un o honynt yn gofyn sylw neilldnol oddieithr 1 Tim. iii. 16. Y mae cywir ddarlleniad ac eglurhad priodol y testun hwn yn amheus. Mewn perthynas i'r darlleniad, pwngc y ddadl, megis y crybwyllais, sydd rhwng *os (yr hwn* neu *efe yr hwn*) ac *o (yr hyn)*. Y mae Griesbach yn dewis y blaenaf, ond dangoswyd, yr wyf yn tybied, ei fod yn anghywir wrth ddifynu ei awdurdodau. Gwel Lawrence's Remarks on Griesbach's Classification of Manuscripts, pp. 71—88. "Yn ol Griesbach," medd Norton, "o'r cyfieithiadau (y rhai gyda golwg ar y testun hwn sy'n rhoddi y dystiolaeth fwyaf pwysig o lawer ellir ei dwyn), nid oes ond Arabic y polyglott a'r Slavonic yn unig dros *theos;* yn yr holl gyfieithiadau eraill defnyddir rhagenw yn atteb i *os* neu *o;* h. y, fod y Coptic, y Sahidic, a'r Philoxenian Syriac, *ar ymyl y ddalen*, yn gosod y rhagenw *os;* fod y Vulgate a chyfieithiadau henach y Lladin yn darllen o, *quod;* fod y Peshito, y Philoxenian Syriac yn y *text*, Arabic Expenius, yr Æthiopic, a'r Armenian, yn arfer rhagenw a ellir ei gyfieithu *yr hwn*, neu *yr hyn*, y naill yn gystal a'r llall. Ond yn ol Dr. Lawrence, gosodiadau yr hwn nid wyf yn gweled un achos i ddrwgdybio, 'Nid yw'r Coptic, y Sahidic, na'r Philoxenian, o angenrheidrwydd yn darllen *os*, ond *o* yn fwyaf tebygol; ac nid yw'r Peshito, Arabic Expenius, na'r Æthiopic, ddim yn darllen *os* neu *o*, y naill yn gystal a'r llall, ond o tuhuwnt i ddadl." Norton's Reasons, pp. 112, 113. Wele o flaen Mr. J. fwy o waith Norton, yn eithaf tebyg, nag a welodd ef erioed o'r blaen, onide nis gallasai fod mor eofn a'm cyfarwyddo atto fel y gwnaeth.

ion dros *Theos* yn 1 Tim. iii. 16 yn rhy wan, ac oherwydd hyny yn ei adael allan o'i *Dext!* Wedi i Mr. J. roddi ei gyfieithiad y mae'n ychwanegu, "Gallaswn roddi y dernyn uchod yn Lladin, ond meddyliaf," &c. Gallasai bid sicr, oherwydd yr oedd y dernyn o'i flaen yn Lladin a Saesonaeg ar y 31 a 32 tudalen o waith Dr. Wardlaw, hyny yw, y tudalenau nesaf at y dernyn sydd yn cynwys y geiriau "*Till God said, Let Griesbach be, and all was light.*" Ac ni feddyliais i erioed ameu na allasai Mr. J. gyfieithu Lladin i'r Gymraeg ond ei gael yn Saesonaeg. Cydmared y darllenydd dysgedig y Lladin a'r Saesnonaeg yn y dernyn yng ngwaith Dr. Wardlaw á Chymraeg Mr. J., ac odid na wel fod ymffrost Mr. J. yn galw am y fflangell hon. Y mae Dr. Wardlaw yn addef mai o waith Dr. Lawrence y cymerodd ef y Lladin a'r Saesonaeg; paham na fuasai Mr. J. yn dilyn ei esiampl yn hyn? Er na fuasai yn ymddangos, trwy hyny, yn gwbl mor ddysgedig, buasai yn llawer mwy teg ac onest. Ond gair bellach am Ladin Griesbach. Nid oes dim llinell, dim sill o hono yn ei ail argraffiad o'i Destament Groeg. Ymddangosodd yn ei argraffiad cyntaf, ond gadawodd ef allan yn hollol o'r ail. Paham na fuasai Mr. J, yn dywedyd y cwbl os gwyddai ef? A ydwyf trwy hyn am brofi mai nid trindodwr oedd Griesbach? Nac wyf yn wir: eithr fy amcan yw dynoethi anhegwch fy ngwrthwynebwr ymffrostgar.

Y mae Mr. J. yn meddwl ei fod wedi cael y fuddugoliaeth arnaf o'r diwedd, oherwydd y camsyniad a wnaethum mewn perthynas i breswylfod y llawysgrif D, ac y mae yn gwneuthur a allo i ddiddymu hyder y cyhoedd yn fy marn i am gynwysiad hen lawysgrifau. Dylasai ei *note* ef ei hun ddysgu gwell moesgarwch iddo gan ei fod yn dywedyd yno y "Meddyliai beirniaid unwaith mai yr ail ran o Codex Bezæ ydoedd." Eithr nid dyna fy esgusawd, ond hyn,--cynted y gwelais y camsyniad, addefais ef mor gyhoeddus ag y gwnaethum ef. Er fod Mr. J. yn dywedyd ei fod wedi anfon ei lythyr i'r wasg cyn gweled fy addefiad, er hyny nid yw yn galw ei sylwadau chwerw yn ol. Digwyddodd y camsyniad arnaf ynghylch y llawysgrif D, yn gystal a'r F, yn y modd hyn. Y mae Griesbach yn nodi y Codex Bezæ a'r Clarmont á'r llythyren D, ac felly hefyd F y Bareelian a'r Augiensis; ymgynghorais á'i list gyntaf ef o lawysgrifau, ac yno y cefais y darluniad a roddais o honynt. Gwnaeth Michaelis yr un camsyniad a minau am Codex Clarmont, gan ei galw yn Codex Cantabrigiensis, ac yn bur debyg oherwydd yr un achos. Pe buasai'r ddadl ynghylch preswylfod y llawysgrifau, buasai Mr. J yn eithaf iawn yn ei sylwadau; ond gan mai eu cynhwysiad yw'r ddadl, nid oes a fyno eu preswylfod a hi. Addefais fy nghamsyniad, ac wele fi yn addef y llall yn awr, a'r rheswm pa'm y gwnaethum y camsyniad. Addefed Mr. J. ei feiau, a chaiff ddigon o gyfle heb fod yn hir, a byddaf cynddrwg ag yntau os daliaf ef i fynu yn wrthddrych gwawd ar ol ei addefiad.

Gair at y cyhoedd. Ddarllenwyr hynaws, nid wyf am i chwi ymddiried dim yn fy marn i am gynwysiad hen lawysgrifau; oherwydd, unwaith am byth, rhaid yw i mi ddywedyd wrthych na welais i yr un llawysgrif erioed, ac nid tebyg y caf y fraint o weled un byth; ac nid wyf yn meddwl, os addefa Mr. J. y gwir, ei fod yntau wedi bod yn fwy llwyddiannus na mi yn hyn. Boed hyn mal y bo, hyn yw fy nghais, ar i chwi bwyso y rhesymau a'r awdurdodau a ddygir o'ch blaen chwi mor ddiragfarn ag y medroch.

Y mae Mr. Jones yn dywedyd, "Cymeraf bwyll i chwilio," &c. Er hyny, un o ffrwythau cyntaf braidd y pwyll hwn yw yr haeriad a ganlyn, "Teimlai Griesbach ei bod mor anhawdd tori lawr ymresymiad Woide, fel y gorfu arno *ddyfeisio* fod pump o bersonau wedi cyngreirio i lygru y llythyren *o* a'i throi yn *theos.*"(*d*) Mae'r haeriad yn cynwys fod Griesbach yn dywedyd fod pump o bersonau wedi *cyngreirio* i lygru'r testun.—Yn nesaf mai *dyfais* Griesbach yn ei galeddi oedd hyn. Profwch eich haeriad, Mr. J., onide byddwch yn euog o ddwyn camgyhuddiad gwarthus yn erbyn yr enwog a'r clodwiw Griesbach, yn awr yn ei fedd. Profwch ef, onide euog fyddwch o ddrwgliwio un o'ch brodyr ffydd, trindodwr ar ei lw. Profwch ef, onide aiff eich cymeriad yn

(*d*) Y mae Mr. J. wedi bod mor anffodiog a chamsynied Henderson, ei brif, os nid ei unig awdurdod yn y ddadl. Dywed Henderson fel hyn, "To evade the force of Woide's remarks, Griesbach is obliged to have recourse to a most complicated system of correction, according to which no *fewer* than *five* different hands have touched and improved upon the MS.; yet he cannot but admit that his *corrector C, to whom* he attributes the alteration *in* (sylwed Mr. J. ar hyn,) and whom he will not allow lived earlier than the tenth century, *this place*, most certainly read not *ho*, but *Theos*, in the MS., according to which he made the correction." Henderson's Great Mystery of Godliness, p. 26. Yma y mae Henderson yn dywedyd yn bendant mai i un diwygiwr, ac nid pump, y mae Griesbach yn priodoli'r llygriad, sef C. Ond, serch hyny, profed Mr. J. ei haeriad ynghylch y cynghrair pwysig, a phob peth o'r goreu, onide erys anwiredd wrth ei ddrws.

isel yn wir, os nad ymedy yn hollol a chwi. Profwch ef, onide—*Sed motos praestat componere animos.* Gwn ryw beth am y ddadl rhwng Woide a Griesbach fy hun. Y mae rhesymau y ddau yn fy meddiant. Ni thal i Mr. J. ddyweyd fod Henderson, yr hyn sydd amheus iawn, na neb arall, yr un farn ag ef am hyn. Gwnaeth yr haeriad ei hun, a rhaid iddo brofi o waith Griesbach mai felly mae'n bod, Rhodded gyfieithiad a'r Lladin ar ei ol, a'r gyfrol a'r tudalen lle y bydd ei ddifyniadau i'w gweled, ac yna pob peth o'r goreu. Rhaid i Mr. J. o'r diwedd ymadael a'i Henderson anwyl a dyfod at Griesbach. Hyn a allaf ddywedyd rhagllaw, ddarfod i Woide ar ol dadl deg a boneddigaidd, o barch i Griesbach a'i wrthwynebwyr ereill, ddanfon at ddau gyfaill dysgedig yn Ffraingc i chwilio'r ysgrifau yn fanol ar bynciau y ddadl, a rhoddi cyfrif cywir o honi; anfonodd Griesbach yntau at gyfaill dysgedig, o'r enw Villoison, i wneyd yr un peth. Y mae'r tri yn cytuno ar brif bynciau y ddadl, *yn erbyn* Woide a *thros* Griesbach, sef mai llygriad yw *Theòs*, ac mai *ho* oedd darlleniad gwreiddiol llawysgrif Clarmontanus. Gan fod y llythyrau yn fy meddiant, cant ymddangos yn yr *Annibynwr* (nage, yr *Ymofynydd,*) mor agos ag y gallaf eu cyfieithu i'r Gymraeg. Yr oeddwn yn meddwl ar y cyntaf osod y Lladin a'r Ffrangaeg yn un golofn, a'r Gymraeg yn y golofn gyferbyniol. Eithr rhoddais heibio'r bwriad hwnw, gan y byddai yn gofyn gormod o le yn eich cyhoeddiad. Ar ol y llythyrau hyn, ni fydd fawr gwaith genyf wrth linell Woide, na haeriad Beza a Michaelis. Hyd hyny, gorphwysaf, &c., O. EVANS.

Hanesion Cartrefol a Thramor.

Ni oddef ein gofod i ni gymeryd ond golwg fer iawn ar helyntion y mis diweddaf. Hyd yn hyn nid oes braidd dim wedi cymeryd lle tuhwnt i'r disgwyliad cyffredin, yn y Senedd na'r Weinyddiaeth. Mae'r amlygiadau mwyaf pwysig o lawer etto yn aros. Ond y mae eu tymp yn agoshau. Cyn ymddangosiad ein rhifyn nesaf y mae yn fwy na thebyg y bydd cwestiynau i gyfodi yn y ddadleuaeth genhedlaethol, y rhai nis gellir hepgor eu hystyried a'u trafod yn mhob ymddiddan rhwng gwleidwladwyr, ac yn mhob cyhoeddiad braidd. Fel y mae yn awr rhaid i ni ymfoddloni ar roddi ychydig gofnodiadau.

Y SENEDD YMHERODROL.

Agorwyd y Senedd ar y 3edd o Chwefror, gan y Frenhines yn bersonol. Yn yr araith Frenhinol, yr hon oedd eleni yn fwy llawn nag arferol, cyfeiriwyd at sefyllfa fewnol y wlad ac amgylchiadau'r bobl yn gyffredin, fel yn galw am foddlonrwydd a diolchgarwch: a chydnabyddwyd "bendith yr Hollalluog" ar ymdrechiadau ein byddin yn yr India, fel y bu iddynt orchfygu eu gwrthwynebwyr ar bob maes, a bod pob argoelion fod y gwrthryfel annedwydd ar gael ei ddwyn i ben. Ond gyda gweddeidd-dra a phwysigrwydd neillduol y cyfeiria y Frenhines at ei gwaith yn cymeryd ati ei hun lywyddiaeth y wlad hòno o hyn allan—a'r cyhoeddiad trwy osteg *(proclamation)* a wnaed o hyny ac o'i theimladau hynaws tuag at y sawl a gawsent eu hudo i wrthryfel, ynghyd a'i phenderfyniad i lywodraethu yr ymherodraeth eang hòno yn ol cyfreithiau cyfiawnder a thiriondeb, ac i sicrhau rhyddid gwladol a chrefyddol i bawb yn ddiwahan. Diau mai gyda gradd fawr o foddlonrwydd yr ychwanegai "ei bod wedi rhoddi hyfforddiad ar fod copi o'r cyhoeddiad hwnw i gael ei osod o flaen y Senedd." A ei Mawrhydi ymlaen i ddywedyd "ei bod yn derbyn oddiwrth bob galluoedd tramor sicrwydd o'u teimladau cyfeillgar; ac mai i feithrin a chadarnhau y teimladau hyny, ac i wneud ei rhan, mor belled ag y dichon ei dylanwad gyrhaedd, er amddiffyn heddwch cyffredinol, fydd amcanion ei hymgais diorphwys." A dywed pob carwr heddwch, Amen; felly y parhao i fod! Ymddibyna parhad yr heddwch, os nad hefyd wellhad sefyllfa cenhedlaethau gorthymedig, i fesur mawr, ar y doethineb a'r penderfynoldeb a ddangosir gan lywodraeth Prydain Fawr.

Ymddengys mai heb un gwir achos y cyfeiriai'r araith gyda boddlonrwydd at "sefyllfa gysurus" y Tywysogaethau Danubaidd yn ol trefniad *Conference* Paris, yn 1856. Prin oedd yr araith wedi ei thraddodi pan ddaeth y newydd fod y trefniant hwnw wedi ei ddymchwelyd, trwy i Moldavia a Wallachia, yn lle dewis bob o Hospodar, y rhai fyddent yn ol trefniant y *Conference*, i lywodraethu bob un ar ei dalaith ei hun, ac i wylied y naill ar y llall, gyttuno i ddewis yr un gwr—Col. Couza—i fod yn Hospodar i'r ddwy dalaith; yr hyn sydd yn berygl o droi yn asgwrn cynhen; fel y mae yn debyg y bydd rhaid cael *conference* etto ar fyr iawn yn yr achos hyny.

Cyfeiriai'r Frenhines at gyttundeb masnachol a wnaed â Rwssia, fel prawf o adferiad perthynasau cyfeillachol rhwng y ddwy wlad; ac at lwyddiant ei hymdrechiadau,

mewn cydgordiad ag Emprwr Ffrainc, er cael heddwch sefydlog, a pharhad a helaethiad masnach â China, ac at y cyttundeb masnachol pwysig a wnaed ag Ymherodraeth eang Japan.

Ac yna, wedi cyffwrdd yn fyr ar destunau anhyfryd caethfasnach, a sefyllfa derfysgedig gwerin-lywodraeth Mexico, trodd ei Mawrhydi ei hanerchiad at Foneddigion y Tŷ Cyffredin, gan ddywedyd wrthynt: "Y bydd y defnyddiad a wneir yn awr o allu agerol *(steam power)* mewn rhyfel morawl, i'w wneud yn angenrheidiol i ychwanegu at draul y wlad mewn darparu ar gyfer adgyfansoddiad *(re-construction)* y Llynges Brydeinig—yn hyderus y byddant i roddi eu llais yn ewyllysgar dros ba swmau bynag a welent yn angenrheidiol tuag at amcanion mor bwysig." Ond wrth *adgyfansoddi* mae'n debyg na feddylid rhagor na chario ymlaen yn mhellach gynlluniau i'r perwyl a ddechreuwyd gan weinyddiaeth Arg. Palmerston.

Tua'r diwedd, gyda chyfeirio yn unig at ddiwygiadau a gynnygir yn y cyfreithiau perthynol i feth-daliad, ac etifeddiaethau, dywedodd y Frenhines yn bendant, "Y bydd sylw y Senedd i gael ei alw at gyflwr y cyfreithiau a reoleiddiant gynrychioladeth y bobl yn y Senedd, ac nas gallai ammeu y bydd iddynt roddi i'r mater pwysig ystyriaeth bwyllog ac amhleidiol, gyfartal i bwysigrwydd yr hyn a ymddibyna ar eu penderfyniadau."

Terfyna'r Araith gyda thaer ddymuniad i'r Seneddwyr gael eu tywys i drefnu pethau yn y modd ag a fyddo er diogelwch y Goron a lleshad cyffredinol.

Y Weinyddiaeth.—Ychydig o gyfrif ellir ei roddi am weithrediadau'r Senedd am y tair wythnos gyntaf o'r eisteddiad. Nid yw y Weinyddiaeth wedi cyfarfod ag un gwrthwynebiad o bwys; ond ni wyddant pa beryglon all fod yn eu haros. Am yr amrywiol gynnygiadau a dderbyniwyd, deuwn i wybod rhagor erbyn amser eu hail ddarllen-iad. Hysbysodd Mr. D'Israeli y byddai iddo ddwyn ei Reform Bill o flaen y Ty ar y 28ain o Chwefror; ac hyd hyny deisyfai gael arbed y drafferth o atteb cwestiynau ynghylch y pwnc.

Traddododd Arg. Stanley araith ragorol ar sefyllfa yr India Ddwyreiniol, wrth ddwyn ymlaen gynnygiadau parth iawn reoleiddio yr ymherodraeth hono.

Y mae ysgrif y Dreth Eglwys, a ddygodd Mr Walpole ymlaen ar y 22ain, yn cynnyg rhyddhau Ymneilduwyr oddiwrth bob tâl ar eu meddiannau eu hunain; ond i ganiattau i berchenogion tiroedd, y rhai ydynt Eglwyswyr, i osod y tâl yn sefydlog ar eu tiroedd yr un modd a'r degwm, ac i rwymo hyny ar eu hetifeddion. Braidd, credwn, y bydd hyd yn oed Eglwyswyr yn foddlon i'w drefn.

Barddoniaeth.

DYLEDSWYDD YR IEUANC TUAG AT YR HEN.

Ton—"*Y Gelynen.*"

(A ganwyd erbyn Cyfrinfa yr Alffrediaid, "Carw Coch," Aberdar.)

Chwychwi ieuenctyd hardd eich gwedd,
Sydd heddyw'n ngwledd flyneddol
Cyfrinfa'r "Carw," Aberdâr,
Mewn cwlwm cariad brawdol;
'Rol mwynhau gwisgoedd uchel bris,
A phorthi blys corphorol,
Mae'n gweddu inni bawb, mewn hedd,
Gael etto wledd feddyliol.

Gan hynny, ennyd, rhoddwch oll
Ddwys glust heb goll i geraint,
A gais ddatganu 'nawr i chwi
'N Dyledswydd ni i'r Henaint;
Mae'r Henaint gwedi profi pwys
Helbulon dwys a chwerw,
Fal gallant ein hyfforddi ni
Rhag gofid i ymgadw.

Fy nghyd ieuenctyd, er ein clod,
Gochelwn fod yn gecrus,
Nac ymddwyn chwaith mewn dim yn swrth,
Un amser wrth Oedranus;
Nid parchu'n unig ar bob cam
Ein tad a'n mam a ddylem,
Ond hefyd pawb oedranus rai,
Heb lai 'n mhob man a'u gwelem.

Pan welom Henwr penllwyd, gwan,
Yn hwyrdrwm ac anffurfiol,
O! byth na wawdiwn gyda ffrost,
Ond byddwn dra thosturiol:
Er mor fethedig heddyw y'nt,
Hwy fuont gynt yn hoyw-wedd,
A'u hail-fabandod eilw am
Ein cariad a'n hamgeledd.

'Nawr, er eu bod yn llesg a llwm,
A chefen crwm a charpiog,
Gall fod ar gof 'n y pen fawr stôr
O addysg gor-ardderchog:
Gan hynny, 'r Ieuanc, feddwl brwd,
Yf iachus ffrwd dwys Brofiad,
A red o fynwes Henaint llon,
Er nawdd i'th galon lwysfad.

Gwyn fyd yr Ieuanc roddo'n ddoeth
Ei bwys ar goeth gynghorion
Henafgwyr mwyn, o brofiad maith,
Rhag gwneuthur gwaith ynfydion:
Y sawl a wrendy ac a wna
Yr hyn a dd'weda Henaint,
Bydd hwn yn ddiogel, coeliweh chwi,
Rhag erchyll ddioddefaint.

Aberdâr. Cynonwyson.